# CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Aviet (Maer); Cynghorwyr Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Margaret Wilkinson, Edward Williams a Mark Wilson

256 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

257 MUNUD O DISTAWWCH –

Hoffwn roi gwybod am farwolaeth drist y cyn Gynghorydd Neil Brown a wasanaethodd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac ar Gyngor Bro Morgannwg rhwng y blynyddoedd 1991 i 1998, ac a fu’n Gadeirydd Cyngor Bro Morgannwg. Cafwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch.

258 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr A. Asbrey, A.M. Collins, V.P. Driscoll, S.M. Hanks, R. Sivagnanam a N.J. Wood

259 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

260 COFNODION –

PENDERFYNWYD – cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill, 2023 a chofnodion y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 10 Mai, 2023 fel cofnod cywir.

261 CYHOEDDIADAU –

Dywedodd y Maer, ers iddi ymgymryd â'i swydd, ei bod wedi mynychu 22 o ddigwyddiadau amrywiol, gan gynnwys Seremonïau Dinesig Meiri Tref a Chadeiryddion ledled y Fro. Gwnaed argraff fawr arni gan eu dealltwriaeth a'u gofal dros eu hardaloedd a'u cymunedau unigryw, gan ddweud mai dyma'r math o gysylltiadau a sgyrsiau fyddai'n creu Bro Morgannwg fwy cydlynus.

Cyhoeddiad yr Arweinydd

Cymerodd yr Arweinydd y cyfle i longyfarch nifer o drigolion y Fro a gafodd gydnabyddiaeth yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin, sef: Jane Hutt, Aelod Senedd Bro Morgannwg, a Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Phrif Chwip, a dderbyniodd CBE yn yr Anrhydeddau; Vincent Bailey, Aelod o'r Cyngor hwn o 2017 tan 2022 ac Arweinydd y Grŵp Ceidwadol o 2019 tan 2021, a gafodd OBE; Jonathan Cox, Dirprwy Gyfarwyddwr Assistance UK, a gafodd hefyd OBE; Sarah Sharpe, oedd yn aelod cefnogi staff yn y Senedd yn ddiweddar, ac a fu'n Aelod o'r Cyngor hwn am wyth mlynedd o 2004 tan 2012, a dderbyniodd MBE a Michael Wheeler, hylenydd deintyddol a thiwtor arweiniol gweithlu deintyddol, a gafodd Fedal yr Ymerodraeth Brydeinig. Dymunai'r Arweinydd i longyfarchiadau a diolchiadau'r Cyngor am eu gwasanaeth cyhoeddus gael ei gofnodi.

Yr oedd y Cynghorydd Carroll am ychwanegu ei ddymuniadau gorau personol a rhai'r Grŵp Ceidwadol i'r sawl a dderbyniodd anrhydeddau.

262 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR SAFONAU (YNGHYD AG ADBORTH GAN ARWEINWYR GRWPIAU GWLEIDYDDOL AR GYDYMFFURFIO AG ADRAN 62 O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021) (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad o'r Pwyllgor Safonau ar 8 Mehefin, 2023 fel yr oedd ar yr agenda ei gyfeirio gan y Cynghorydd Birch, Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg, a ddywedodd mai cyfeiriad oedd hwn o'r Pwyllgor Safonau, gan atodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor am 2022/2023 i'r Cyngor ei ystyried.

Nododd y Cynghorydd Birch ei fod yn Adroddiad Blynyddol cynhwysfawr, oedd yn rhoi trosolwg o'r canlynol:

- Cylch gorchwyl y Pwyllgor, ei strwythur a'i aelodaeth;
- Nifer yr achlysuron y cyfarfu'r Pwyllgor Safonau yn ystod 2022/2023 a natur y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor gan gynnwys manylion am gyfarfodydd y Swyddog Monitro gyda Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned;

- Yr oedd yr Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at sefydlu Fforwm Pwyllgor Safonau Cymru Gyfan, gan gyfeirio at gyfarfod cychwynnol y Fforwm ym mis Ionawr 2023;
- Nodwyd yn arbennig fod yr Adroddiad Blynyddol yn cyfeirio at y ddyletswydd statudol a gyflwynwyd ym mis Mai 2022 am Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a'u hymwneud â'r Pwyllgor Safonau, ynghyd â'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Safonau a'r Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol o ran cadw at y ddyletswydd statudol; gyda'r Pwyllgor Safonau yn cofnodi yn yr Adroddiad Blynyddol fod y Pwyllgor yn fodlon fod Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol wedi cwrdd â'u dyletswydd statudol;
- Cyfeiriodd yr Adroddiad Blynyddol hefyd at gyfarfodydd a fynychwyd gan yr aelodau etholedig Annibynnol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Safonau; fodd bynnag, yr oedd y Pwyllgor Safonau wedi cofnodi yn yr Adroddiad Blynyddol na fu un aelod etholedig Annibynnol mewn cyfarfod a drefnwyd;
- Nododd yr Adroddiad Blynyddol na chafodd unrhyw gwynion eu hystyried gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, ac na dderbyniwyd unrhyw adroddiadau i ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2022/2023;
- Yn olaf, nodwyd fod yn yr Adroddiad Blynyddol argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau y dylid derbyn ceisiadau am oddefeb o leiaf saith diwrnod clir cyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau, wedi eu cyflwyno ar y ffurflen a ddarperir i helpu Aelodau, fel y gellir anfon y ceisiadau gyda'r agenda.

I gloi, dywedodd, ers i'r Adroddiad Blynyddol gael ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau, fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol ac Anstatudol yn awgrymu y dylid rhannu'r Adroddiad Blynyddol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned lleol.

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r Adroddiad Blynyddol sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r cyfeiriad gan y Pwyllgor Safonau.

(2) Cytuno ar yr argymhelliad sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ac a nodir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad isod, i'r graddau y mae'n ymwneud â Chyngor Bro Morgannwg a'i Aelodau:

> "Mae'r Pwyllgor Safonau yn gofyn i holl Aelodau Cyngor Bro Morgannwg a Chynghorau Tref a Chymuned gael eu cynghori i sicrhau bod ceisiadau am ollyngiadau'n cael eu derbyn o leiaf saith diwrnod clir cyn cyfarfod, ac ar y profforma priodol, er mwyn galluogi'r ceisiadau i fod. cael ei anfon gyda'r agenda."

(3) Bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/2023 yn cael ei anfon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a holl Gynghorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg i'w ystyried.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad.

(2) Galluogi ceisiadau am ollyngiad i gael eu hanfon gyda rhaglen y Pwyllgor Safonau.

(3) I'w hystyried.

263 BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD - DIRPRWY A ENWEBWYD GAN Y CYDBWYLLGOR CRAFFU (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad o'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio ar 20 Mehefin, 2023, fel y mae ar yr agenda, ei gyflwyno gan y Cynghorydd Perkes, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio, a gynigiodd fod y Cynghorydd I.A.N. Perry yn cael ei gadarnhau fel y dirprwy enwebedig i gynrychioli'r Cyngor ar Fargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd – Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, a eiliwyd gan yr Arweinydd.

PENDERFYNWYD – BOD Y Cynghorydd I.A.N. Perry yn cael ei benodi'n Ddirprwy enwebedig i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Penodi dirprwy gynrychiolydd newydd i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu

264 DIWYGIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR (SM/PGCD) –

Yr oedd yr adroddiad am i'r Cyngor gymeradwyo'r newid i'r darpariaethau cyfredol sydd yn Adran 4, (paragraff 4.6.16) ac Adran 14 (paragraff 14.11) o Gyfansoddiad y Cyngor yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru yn cywiro cyngor blaenorol yng nghyswllt Adran 92 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghylch pwy ddylai bennu pryd y dylid cynnal Panel Asesu Perfformiad.

Ceisiwyd cymeradwyaeth hefyd i wneud newidiadau dilynol pellach, fel yr amlinellir ym mharagraffau 2.5 a 2.6 yr adroddiad, i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i ddarpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a ddaeth i rym ar Fai 8, 2022.

Ceisiwyd cymeradwyaeth y Cyngor i newid Adran 18, paragraff 18.15.2 (c) i gynnwys cyfeiriad at £300,000 i fod yn unol â dirprwyo i Brif Swyddogion fel ar dudalen 321 Adran 26 Pob Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth, paragraff 1.

Ceisiwyd hefyd gymeradwyaeth i gynnwys y trothwy y cytunwyd arno gan y Cyngor am roddion a lletygarwch yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel y gosodwyd allan isod:

- Am roddion, buddion materol neu fanteision, y trothwy yw £25 neu gyfanswm o £100 dros flwyddyn o un ffynhonnell.
- Am letygarwch, y trothwy yw £25 neu gyfanswm o £100 dros flwyddyn o un ffynhonnell.

Yr oedd yr adroddiad yn cynnig newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel:

- Yr awdurdodwyd y Cabinet i bennu pryd y dylid cynnal Panel Asesu Perfformiad;
- Nodwyd y swyddogaethau dewis lleol a nodir ym mharagraffau 2.5 a 2.6 yr adroddiad fel swyddogaethau'r Cyngor;
- Ychwanegu paragraff at Reolau Gweithdrefnau Contractau i adlewyrchu paragraff yng Nghod Ymarfer Caffael y Cyngor er mwyn eglurder; ac
- Mae Cod Ymarfer Aelodau'r Cyngor yn cyfeirio at y trothwy am gofrestru rhoddion a lletygarwch fel y cytunwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, a'r Cabinet.

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r diwygiadau / ychwanegiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor fel y nodir ym mharagraffau 2.2 , 2.5, 2.6, 2.7 a 2.9 o'r adroddiad a bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu newidiadau a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor, at ddibenion eglurhad ac i adlewyrchu'r cyngor a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â darpariaethau statudol.

265 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol ac atebwyd nhw fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010.

(i) **<u>Cwestiwn gan Miss M. Ellis</u>**

Allai rhywun fod mor garedig ag esbonio pam y creodd Trevor Baker gwmni arlwyo, (The Big Fresh) y mae Rhiannon Birch hefyd yn Gyfarwyddwr arno, a bod y cwmni arlwyo hwn yn cyflenwi'r holl ysgolion yn y Fro, ac eto sydd â diffyg o £8 miliwn yn ei bensiynau, yn ôl ei gyfrifon? Mae Penaethiaid rhai o'r ysgolion, a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Pencoedtre hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni hwn , sy'n amlwg yn wrthdrawiad buddiannau yn gyffredinol!

**<u>Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymwneud Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio</u>**

Diolch, faer, a diolch Miss Ellis am y cyfle i roi gwybodaeth am sefydlu Cwmni Arlwyo'r Big Fresh a'i lwyddiannau niferus.

Bu sefydlu Cwmni Arlwyo'r Big Fresh yn ganlyniad i raglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor a gychwynnodd yn 2015. Yr oedd swyddogion ac aelodau ar draws y Cyngor yn rhan o'i ddatblygiad, gyda phob penderfyniad am ffurfio'r cwmni, ei lywodraethiant, rôl y cyfarwyddwyr a chyfansoddiad y Bwrdd yn fater i'r Cabinet, gydag awdurdod wedi ei ddirprwyo i Ddysgu a Sgiliau yng nghyswllt y Cytundeb

Lefel Gwasanaeth rhwng y naill ochr a’r llall o ran cyflawni gofynion statudol am addysg.

Yr oedd ei ddatblygiad a’i gyflwyno mewn gwirionedd wedi estyn dros dri o Weinyddiaethau’r Cyngor, ac yn ystod y cyfnod hwn, hyd y gwn, adroddwyd arno i’r Cabinet yn 2017, 2018 a 2019 ac i’r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn 2018. Mae’r adroddiadau hyn ar gael o wneud cais.

Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol ydyw, sy’n gweithredu yn annibynnol ar y Cyngor. Un o gydrannau allweddol y model hwn yw sefydlu Bwrdd Cyfarwyddwyr sy’n gyfrifol am weithrediadau strategol y Cwmni.

Mae cynnwys Penaethiaid sy’n cynrychioli ysgolion ledled y Fro ar y Bwrdd hwn yn egwyddor allweddol prif nod y Cwmni o gefnogi darparu prydau ysgol a gweithio ar y cyd. Nid oes unrhyw rai o’r Penaethiaid, swyddogion y Cyngor nac Aelodau yn derbyn unrhyw dâl am eu hymwneud â’r Cwmni, ac y mae penodiadau Cyfarwyddwyr oll yn cael eu hystyried yn ofalus a’u pennu gan y Cyngor.

Mae Cwmni Arlwyo’r Big Fresh yn cyflogi dros 230 o staff a bydd ganddo felly beth cyfrifoldeb o ran atebolrwydd pensiynau, er bod yn rhaid i mi ddweud nad wyf yn adnabod y ffigyrau a ddyfynnwyd yn y cwestiwn. Mae’r Cwmni’n cael ei archwilio’n rheolaidd gan y Cyngor ac yn allanol ac y mae ar hyn o bryd yn gweithredu gyda gwarged.

Mae manteision y model hwn i’n disgyblion yn sylweddol. Nid yn unig y bu sefydlu Cwmni Arlwyo’r Big Fresh yn gyfraniad sylweddol i dargedau arbedion y Cyngor, ond bu hefyd yn gyfrifol am gefnogi grwpiau cymunedol a galluogi darpariaeth fel Pafiliwn Pier Penarth trwy ei wasanaethau masnachol; heb y rhain, gallai’r Pafiliwn yn hawdd fod wedi bod ar gau o hyd yn dilyn methiant y cwmni blaenorol yng nghanol y pandemig. Mae pob gwarged a gynhyrchir gan y Cwmni yn cael ei ail-fuddsoddi yn ein hysgolion.

Llwyddiant arall ar ran y Cwmni yw mai hwy oedd y cyntaf yng Nghymru i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion cynradd Bro Morgannwg, ar ran yr awdurdod lleol.

Gobeithio y gallwch ymuno a mi i longyfarch tîm dawnus ac arloesol sydd wedi datblygu menter gymdeithasol y bu llawer Cyngor arall yn ymweld â hwy i glywed am eu gwaith a’u llwyddiant.

(ii) **<u>Cwestiwn gan Mr. D. Clarke</u>**

A yw’r Arweinydd yn cytuno fod y ffaith fod PEDW wedi canslo’r Ymchwiliad Cyhoeddus i’r Apêl gan y Llosgydd ar Ddociau’r Barri ynghylch y Rhybudd Gorfodi a gyhoeddwyd gan Gyngor Bro Morgannwg heb i unrhyw ddyddiad newydd gael ei bennu yn annerbyniol? A fydd Cyngor Bro Morgannwg yn dweud wrth PEDW fod angen ymdrin â’r sefyllfa bresennol lle nad oes dim yn digwydd, a bod angen gosod dyddiad ar gyfer yr ymchwiliad cyhoeddus cyn gynted ag sydd modd a/neu roi rheswm clir dros yr hyn sy’n ymddangos fel diffyg symud?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a’r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Dywedodd PEDW y bu’n rhaid gohirio’r Ymchwiliad er mwyn rhoi ystyriaeth lawn i’r newid arfaethedig i’r Rhybudd, a ystyriwyd gan Bwyllgor Cynllunio’r Cyngor ym mis Ebrill eleni. Er ei bod yn bwysig i PEDW roi eglurder mor fuan ag sydd modd am ail-drefnu’r Ymchwiliad, mae’n bwysig hefyd datrys unrhyw faterion trefniadol er mwyn i’r Ymchwiliad gael ei gynnal yn effeithiol.

(iii) **Cwestiwn gan Mr. D. Clarke**

A yw Cyngor Bro Morgannwg yn cytuno gyda’r Gweinidog Newid Hinsawdd, fel y datganodd yn ei llythyr ar 29 Gorffennaf 2021, fod y cais cynllunio amlinellol 2015/00031/OUT ar gyfer prosiect Atodlen 1 ac felly y buasai wedi bod angen AEA? Os yw’r Cyngor yn anghytuno gyda phenderfyniad CCM, a gaiff y cyhoedd wybod pam?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a’r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae hanes cymhleth i gyfarwyddiadau sgrinio sy’n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio blaenorol, pan sgriniodd Llywodraeth Cymru y cynigion fel rhai heb fod yn ddatblygiad AEA. Nid yw’r cwestiwn a oedd y cynigion blaenorol yn ddatblygiad AEA neu beidio yn sylfaenol i deilyngdod y datblygiad cyfredol na’r apêl sy’n mynd rhagddo. Byddai pennu a oedd cais 2015 yn ddatblygiad Atodlen 1 neu beidio yn amherthnasol ac yn ddibwrpas, o ystyried fod y broses apêl yn dal ymlaen.

(iv) **Cwestiwn gan Mr. M. Wallis**

Gyda’r oedi cyn cyhoeddi’r Map Llifogydd newydd i Gymru a TAN15, a fydd y Cyngor yn cymryd camau i hysbysu CNC o’r ddau ddiffyg amlwg yn y Map o ran gorlifo o’r môr, yn Aberddawan lle mae’r môr yn aml yn llifo dros y mur, ac ar Ddoc Rhif 2 y Barri, lle mae asesiadau diweddar o’r Hoist Lo a safleoedd y Llosgydd gerllaw ill dau wedi gosod y lefel risg o lifogydd ar tua 8.9metr AOD, sy’n debyg o safle Glan y Dŵr? Mae’n gyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor fel Awdurdod Rheoli Llifogydd arweiniol, yn ogystal â’i gyfrifoldeb cynllunio yng nghyswllt TAN 15.

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Os bydd ein swyddogion yn nodi unrhyw ddiffygion posib yn y cynlluniau risg llifogydd ar gyfer yr ardal, fe fyddant, wrth gwrs, yn eu codi gyda CNC, sy’n gyfrifol am y mapiau llifogydd sy’n ffurfio rhan o’r TAN 15 arfaethedig newydd.

(v) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**
*(Ar ran Barri Brydferth.)*

Mae sawl eiddo yn y Fro heb erddi blaen nac ochr, a dim ond lle bychan iawn yn y cefn. Mae trigolion y tai hyn yn cynhyrchu gwastraff gwyrdd, ond dim byd tebyg i’r 8 bag bob pythefnos, felly nid yw trwydded yn economaidd hyfyw. Dywedodd swyddogion wrth y trigolion hyn am yrru i’r Ganolfan Ailgyrchu, ond nid pawb sydd â

char, nac yn defnyddio bin compost  a fyddai’n gostwng eich ffigyrau ailgylchu. Mae gwahaniaeth enfawr rhwng y trigolion hyn a fydd yn talu £20 a’r sawl sy’n cynhyrchu llawer mwy na 30 bag ac yn talu £30 yn unig.  Pam nad yw’r Fro wedi darparu gwasanaeth cost-effeithiol i gasglu gwastraff gwyrdd i drigolion sydd ond yn cynhyrchu 1 neu 2 fag bob yn ail wythnos?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Bwriad cost y gwasanaeth tanysgrifio gwastraff gwyrdd yw cynnwys yr eiddo hynny sydd ond yn cynhyrchu symiau bychain o wastraff gwyrdd, ac adlewyrchir hynny ym mhris y tanysgrifiad.

Mae cynnwys hyd at 8 bag, fel rhan o’r gwasanaeth tanysgrifio safonol, yn bodoli er mwyn rhoi ystyriaeth i rai adegau o’r flwyddyn pan gynhyrchir mwy o wastraff gwyrdd oherwydd gweithgareddau tymhorol, megis tocio gwrychoedd neu goed.

Nid wyf yn siŵr a wnaethoch ystyried faint fyddai’n rhaid i breswylydd dalu petai’n gorfod defnyddio cwmni gwastraff preifat trwyddedig i gasglu gwastraff gwyrdd o ymyl y palmant, ond buaswn i’n awgrymu fod y gost flynyddol o £20 am gasglu 1 bag bob pythefnos rhwng Gorffennaf a Thachwedd a mynediad at wasanaeth galw a chasglu o ymyl y palmant wedi hynny yn werth da am arian mewn cymhariaeth

(vi) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**
*(Ar ran Barri Brydferth.)*

Ffyrdd ochr yn ardal y Stryd Fawr. Rydym yn llawn sylweddoli fod Cynghorwyr lleol yn gweithio’n galed i ddileu problem gyson tipio anghyfreithlon yn yr ardal hon, ond mae’n digwydd dro ar ôl tro. Gyda chyflwyno casgliadau bagiau du bob 3 wythnos, a yw’r Cyngor yn pryderu y bydd hyn yn gwaethygu tipio anghyfreithlon yn yr ardal hon, a sut maent yn bwriadu gofalu y cedwir yr ardal hon yn lân?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae’r ardal hon o’r Stryd Fawr yn y Barri yn cael ei harchwilio, a’r safonau glanhau yn cael eu monitro deirgwaith yr wythnos, a bydd ein swyddogion yn parhau i wneud hynny hyd nes y pennir effaith y casgliadau 3-wythnos.

Hefyd, bydd Swyddogion Gorfodi Amgylcheddol y Cyngor yn cefnogi’r gwasanaeth trwy’r cyfnod trosiannol hwn, a byddant ar gael i ymateb yn sydyn i unrhyw ddigwyddiadau o dipio anghyfreithlon yn ôl y gofyn.

(vii) **Cwestiwn gan Mr. L. Mack**

Gan gyfeirio at y Datganiad Tir Cyffredin a lofnodwyd yn yr Apêl Gorfodaeth gan Mr Ian Robinson, Pennaeth Datblygu Cynaliadwy, a fyddai modd i chi esbonio sut y gellir sefydlu egwyddor pan ddilynwyd y broses/prosesau penderfynu mor esgeulus heb yr AEA angenrheidiol a phan nad oedd modd i’r swyddog wybod beth fyddai’r penderfyniad petai’r broses wedi ei dilyn yn gyfreithlon ac mewn modd fyddai’n gwarchod iechyd y cyhoedd.

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Mae'r Datganiad Tir Cyffredin (DTC) yn cyfeirio at egwyddor 'gwaith ynni adnewyddol sy'n llosgi coed' ac nid yw'n trafod a oedd y datblygiad fel y'i codwyd (na chynigion penodol blaenorol) yn ddatblygiad AEA ai peidio. Efallai na fydd datblygiad ynni yn ddatblygiad AEA (yn dibynnu ar ei natur benodol iawn, maint y mewnbwn y dydd, er enghraifft). O'r herwydd, nid yw'r DTC yn golygu y daethpwyd i unrhyw gasgliad penodol ynghylch a ddylai'r ceisiadau blaenorol fod ag AEA, ac ni ystyrir bod unrhyw gytundeb am egwyddor fras datblygiad diwydiannol o'r math hwn mewn lleoliad diwydiannol yn ddibynnol ar fod angen AEA neu beidio. Nid yw cynnwys y DTC yn rhagfarnu safbwynt y Cyngor parthed y datblygiad a godwyd, nac yn pennu ymlaen llaw a yw'r effeithiau amgylcheddol yn dderbyniol ai peidio.

266 CWESTIYNAU SY'N UNOL AG ADRAN 4.18 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn i gwestiynau gan yr Aelodau a oedd wedi'u nodi ar yr agenda.

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Ewan Goodjohn**

Fel y saif, beth yw dyddiad y targed cyfredol i ôl-ffitio holl dai Cyngor Bro Morgannwg i safon EPC A?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau (Dan y Portffolio Tai'r Sector Preifat ac Ymwneud Tenantiaid)**

Fel y nodwyd yng Nghynllun Busnes yr HRA y cytunodd y Cyngor iddo ar 6 Mawrth eleni, gyda'r targedau gwreiddiol wedi eu gosod i ostwng yr ôl troed carbon o 80% erbyn 2030, adolygwyd hyn bellach i darged o EPC A erbyn 2030 i bob cartref cymdeithasol. Mae tîm Asedau Tai y Cyngor yn uchelgeisiol ac yn gweithio tuag at gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC23) Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nod y safon drafft hon yw cyrraedd sero net i holl dai'r Cyngor erbyn 2033.

Fodd bynnag, nid yw'r safon newydd wedi ei lansio'n swyddogol eto yng ngoleuni'r argyfwng economaidd presennol, argaeledd cadwyni cyflenwi a galw uchel yn y sector ôl-ffitio.

(ii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Ewan Goodjohn**

Ym Mai, gwnaeth Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru gyhoeddiad am y bwriad i ddiwygio Treth y Cyngor gan gynnwys ail-brisio rheolaidd, bandio mwy arloesol ac adolygiad o ostyngiadau ym mis Ebrill 2025. Pa ddadansoddiad a wnaeth y Cyngor o effaith y diwygiadau ar gyllid y Cyngor a thrigolion y Fro?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Cychwynnodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad dau-gam ar Ddiwygio Treth y Cyngor– Treth Decach fis Awst diwethaf. Yr oedd cam cyntaf yr ymgynghoriad yn edrych i mewn i nifer o faterion ynghylch ail-brisio eiddo, bando, gostyngiadau ac eithriadau, a'r Cynllun Gostwng Treth Cyngor mewn egwyddor.

Ymatebodd y Cyngor i'r Ymgynghoriad ac adrodd am hyn trwy'r Cabinet ar 3 Tachwedd, gan gyfrannu hefyd i'r ddadl trwy wrandawiadau Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadansoddi'r ymatebion mewn proses sy'n debygol o gymryd cryn amser. Disgwylir y bydd Cam 2 yr ymgynghoriad, fydd yn fwy manwl, yn cael ei lansio yr hydref hwn, ac yna gall y Cyngor gynnal dadansoddiad manwl o'r effaith ar gyllid Bro Morgannwg a'i thrigolion.

(iii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.E. Godfrey**

Mae'r arwyddion ar yr A4232 a Heol y Porthladd yn croesawu pobl i Fro Morgannwg mor frwnt nes eu bod yn amhosib eu darllen; felly beth yw'r pwynt cael yr arwyddion os nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw?

Pan gytunir i osod yr arwyddion hyn, onid yw cytuno ar gynllun cynnal yn rhan o hynny?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae'r maes gwasanaeth ar hyn o bryd yn glanhau arwyddion ffyrdd trwy adweithio naill ai o ganlyniad i archwiliad neu pan fo aelod o'r cyhoedd yn dweud eu bod yn ddiffygiol neu'n frwnt. Yn anffodus, nid oes adnoddau ar gael i drefnu glanhau arwyddion ffyrdd yn rheolaidd oherwydd y gyllideb gyfyngedig sydd ar gael i gynnal a chadw'r priffyrdd.

**Ategol**

Gan gydnabod ymateb yr Aelod Cabinet , tynnodd y Cynghorydd Godfrey sylw at y ffaith nad oedd yr arwyddion ar hyd yr A4232 a Heol y Porthladd wedi eu glanhau ers dros 5 mlynedd, a'i fod yn tybio bod hyn yn warthus gan ei fod yn borth i'r Sir.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Cynghorydd Godfrey am dynnu ei sylw at y mater, a dywedodd y buasai'n hapus i ofyn i'r tîm cynnal eu harchwilio.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.E. Godfrey**

Mae'r fro, fel llawer o fannau eraill, mewn argyfwng o ran nifer y tyllau yn y ffyrdd ledled Bro Morgannwg. Pa fesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i ymdrin â hyn? Rwy'n bryderus iawn am faint o amser swyddogion priffyrdd sy'n cael ei neilltuo i hyn ar hyn o bryd, a'i fod yn eu hatal rhag cyflawni eu cyfrifoldebau craidd.

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Cyflogodd y maes gwasanaeth gontractwyr ychwanegol i reoli nifer y tyllau/diffygion yn y priffyrdd a achoswyd oherwydd y tywydd gwael yn gynharach eleni, ac fe fu'n gyfnod heriol dros ben. Nid problem i Fro Morgannwg yn unig yw hon; mae'n ganlyniad i ddiffyg buddsoddiad ar lefel y DU dros gyfnod maith.

Bu'r Cyngor yn cefnogi'r maes gwasanaeth trwy ddefnyddio arian wrth gefn i ategu'r gyllideb Cynnal a Chadw Priffyrdd, yn ogystal â neilltuo cymaint o gyllid cyfalaf adnewyddu ag sydd modd, gan gadw mewn cof y galwadau niferus eraill ar gyllid cyfalaf. Mae'n debyg i chi sylwi ar ein cyfoesiad i gynllun arwynebu 3 blynedd y Cyngor yr adroddiad arno i'r Cabinet ddydd Iau diwethaf.

Ni fyddai defnyddio arian wrth gefn at lefel cost yr ail-wynebu fyddai ei angen o flwyddyn i flwyddyn yn briodol nac yn gynaliadwy. Fel llawer o gynghorau eraill yng Nghymru, mae arnom angen cefnogaeth ein llywodraeth genedlaethol i helpu i dalu am y gwaith cyson sydd ei angen. Mae ein swyddogion ar hyn o bryd yn cyfoesi data rheoli asedau o ran cyflwr ein priffyrdd, a phan fydd hyn wedi ei wneud, bwriadwn ofyn i Lywodraeth Cymru am gyfraniad flwyddyn ar ôl blwyddyn i'r rhaglen o gynnal priffyrdd yr Awdurdod.

(v) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.E. Godfrey**

Gyda llawer o staff bellach yn gweithio o gartref yn ystod yr wythnos waith, a oes ar y Cyngor angen 3 lleoliad o hyd ar gyfer swyddfeydd?

**Ateb gan Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Yr ydym wedi bod yn adolygu ein gofynion am swyddfeydd yn gyffredinol yn dilyn y pandemig a'r newidiadau i arferion gwaith ein staff mewn swyddfeydd. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn trwy ymgynghori â meysydd gwasanaeth o ran gofynion penodol i wasanaethau fel bod eu staff yn deall y maint a'r math o le fydd ei angen i gefnogi cydweithwyr i weithio'n effeithiol o gartref ac yn y swyddfa. Trwy'r trafodaethau hyn, yr ydym wedi penderfynu nad oes arnom angen yr holl le sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd, ac yr ydym yn awr yn gweithio trwy'r dewisiadau a'r casgliadau; o ganlyniad i'r gwaith hwnnw, bydd y Cabinet yn ei ystyried dros y misoedd nesaf. Mae hyn yn gyson â'r Strategaeth Pobl a ystyriwyd gan y Cabinet yr wythnos ddiwethaf.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles**

Beth yw cyfanswm y gost hyd yma i'w Awdurdod am gerbydau casglu gwastraff newydd?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Prynwyd pedwar ar hugain o Gerbydau Adfer Adnoddau Romaquip er mwyn cefnogi'r Cynllun Busnes a'r Strategaeth Rheoli Gwastraff y cytunodd yr Aelodau Etholedig arno yn 2022, ar gost o £3,386,752.65. Cafwyd y rhain trwy ddefnyddio

grant Llywodraeth Cymru o £1,993,419 a chyllid y Cyngor ei hun ar gyfer cerbydau newydd o £1,393,337.65.

(vii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles**

A wnaiff yr Aelod Cabinet gadarnhau beth yw cynlluniau'r Awdurdod at y dyfodol ar gyfer yr hen gerbydau casglu gwastraff y cafwyd rhai newydd yn eu lle yn ddiweddar?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae tîm rheoli'r fflyd eisoes wedi dechrau datgomisiynu'r hen fflyd o gerbydau gwastraff nad oes mo'u hangen bellach o ganlyniad i'r newidiadau diweddar yn y gwasanaeth, a chaiff y rhain eu gwerthu trwy Merthyr Motor Auctions.

Penodwyd Merthyr Motor Auctions yn dilyn proses tendr agored. Ar sail dadansoddiad o'r tendr, Merthyr Motor Auctions oedd yn rhoi'r gwerth gorau i ni am eu bod yn rhoi'r elw mwyaf o werthu cerbydau neu offer arbenigol ar ein rhan.

Mae'r holl incwm a dderbynnir o werthu fflyd neu offer yn cael ei roi'n ôl i'r rhaglen adnewyddu cerbydau er mwyn prynu cerbydau ac offer yn y dyfodol.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles**

A yw'r Awdurdod wedi cynnal unrhyw asesiad o effeithiau posib y newidiadau diweddar i gasglu gwastraff ar dipio anghyfreithlon?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae'r maes gwasanaeth eisoes yn monitro digwyddiadau o dipio anghyfreithlon ac yn ystyried unrhyw dueddiadau neu feysydd lle mae hyn yn digwydd. Os bydd yn ymddangos bod y digwyddiadau hyn yn gysylltiedig â newidiadau diweddar mewn casglu bagiau duon neu wastraff gwyrdd, yna bydd Swyddogion Ailgylchu a /neu Swyddogion Gorfodi'r Cyngor yn addysgu, ymchwilio ac yn gorfodi yn ôl y galw.

**Ategol**

Holodd y Cynghorydd Charles faint o bobl a erlynwyd am dipio anghyfreithlon yn y flwyddyn ddiwethaf.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Charles.

(ix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd W. A. Hennessy**

A fydd yr Aelod Cabinet cystal â rhoi sicrwydd na fydd trigolion yn wynebu camau gorfodi sy'n eu dychryn gan y Cyngor pan weithredir y taliadau gwastraff gardd newydd?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Bwriada'r maes gwasanaeth gymryd agwedd addysgol at wastraff gwyrdd sy'n cael ei osod yn y lle anghywir i'w gasglu wedi cyflwyno'r gwasanaeth tanysgrifio. Bydd y gwasanaeth yn parhau gyda'r agwedd hon ac yn ystyried camau gorfodi fel cam olaf yn unig. Ymhellach, yr ydym yn annog trigolion i fanteisio ar y gwasanaeth casglu gwastraff gardd sy'n rhoi gwerth ardderchog am arian o gymharu ag awdurdodau lleol eraill sy'n cynnig y gwasanaeth hwn.

(x) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

Pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella diogelwch y ffyrdd ar gyffordd yr A4055 a B4267 ger tafarn y Merrie Harrier?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Yr ydym yn ymwybodol o'ch pryder diweddar am ddiogelwch y briffordd ar y gyffordd hon yn dilyn gwrthdrawiad a ddigwyddodd ar y gyffordd ar 22 Mehefin 2023 lle trodd cerbyd i'r dde o flaen cerbyd oedd yn gyrru ymlaen, ac a arweiniodd at fân anafiadau i'r teithwyr. Rhaid bod yn ddiolchgar na fu angen triniaeth yn yr ysbyty iddynt. Dywedwyd wrthyf y cawsoch ymateb cynhwysfawr gan swyddogion am y digwyddiad hwn ac am reoli diogelwch wrth y gyffordd hon ac nid oes gennyf ddim mwy i'w ychwanegu.

**Ategol**

Yr oedd y Cynghorydd Carroll yn croesawu'r ffaith fod asesiad telemateg yn cael ei gynnal ar y gyffordd, ac amlygodd y ffaith, ar ben hynny, fod arwydd hidlo i'r dde wedi ei osod ar y gyffordd. Fodd bynnag, i draffig oedd yn teithio o Heol y Barri / Heol Penlan, nid oedd yr un arwydd wedi ei ddefnyddio a gofynnodd i'r Aelod Cabinet ymchwilio i weld a fyddai troi arno yn ei wneud yn fwy diogel ar y cyffyrdd, ond ofnai fod y Cyngor yn aros i farwolaeth ddigwydd cyn cymryd y camau angenrheidiol.

Atebodd yr Aelod Cabinet trwy ddweud y byddai'n sicr o drafod hyn gyda'r swyddogion a rhoi ateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Carroll.

(xi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

Pa asesiad iechyd amgylchedd a wnaeth y Cyngor ynghylch cyflwyno casgliadau gwastraff bagiau duon bob 3 wythnos?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Ystyriodd y maes gwasanaeth effaith casgliadau gwastraff bagiau duon bob 3 wythnos fel rhan o'i Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA). Y camau a nodwyd fel rhan o'r gwaith hwn oedd llacio'r math o gynwysyddion a dderbynnir ar ochr y palmant, gan ganiatáu i drigolion ddefnyddio bocsys hylendid cloadwy, biniau sbwriel a biniau olwyn fel dulliau o gadw'r math yma o wastraff a gwarchod rhag arogleuon drwg.

Fel gydag unrhyw newidiadau gwasanaeth sylweddol mewn gwastraff, a bu llawer o'r rhain dros y blynyddoedd diwethaf, caiff effeithiau'r newidiadau eu monitro dros y 3 mis nesaf i ganfod a oes angen unrhyw newidiadau pellach i'r gwasanaeth neu fecanweithiau cefnogi.

**Ategol**

Dywedodd y Cynghorydd Carroll fod llawer o drigolion wedi mynegi pryderon wrtho am effaith storio gwastraff am amser hwy, a all arwain at gynnydd yn y risg o lygod mawr a phryderon iechyd amgylchedd eraill yn y cymunedau, a gofynnodd i'r Aelod Cabinet a fyddai'n monitro hyn ac yn rhoi cyfoesiad i'r Cyngor yn y fan.

Atebodd yr Aelod Cabinet y byddai'n amlwg yn cyfoesi'r Cynghorydd Carroll ac yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu wedi cyfnod sylweddol o amser.

(xii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi cyfoesiad am y buddsoddiad mae'r Cyngor yn wneud i wrthweithio tipio anghyfreithlon yn y Fro?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae gan Dîm Gorfodi'r Cyngor Uned Troseddau Gwastraff sy'n mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a throseddau gwastraff cysylltiedig eraill. Yn ychwanegol at system TCC y Cyngor ei hun, mae gan y tîm 18 o gamerâu TCC a ddefnyddir ganddynt i gasglu tystiolaeth ar droseddau tipio anghyfreithlon ledled y Fro.

**Ategol**

Dywedodd y Cynghorydd Carroll fod rhai cilfannau ar Heol Lecwydd yn fannau amlwg ar gyfer tipio anghyfreithlon a gofynnodd i'r Aelod Cabinet a fyddai'n ymrwymo i ddefnyddio'r unedau yno.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n gofyn i'r swyddogion ymchwilio.

(xiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A yw swm y gwastraff mewn bagiau duon a gasglwyd yn Nwyrain y Fro wedi cynyddu ers cyflwyno casgliadau ailgylchu ar wahân?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Nid yw'r gwasanaeth yn cofnodi pwysau bagiau duon yn ardaloedd Gorllewin y Fro, y Barri a Dwyrain y Fro. Dewiswyd yr ardaloedd hynny yn unig fel dull o symud yn raddol i gael casgliadau ar wahân tra bod ein Cyfleuster Adfer Adnoddau newydd yn cael ei godi yn y Barri. Mae ein rowndiau cerbydau bagiau duon yn mynd i wahanol ardaloedd, felly nid oes modd darparu'r data y gofynnwch amdano i Ddwyrain y Fro yn unig.

Fodd bynnag, arhosodd swm y gwastraff mewn bagiau duon yn weddol gyson am fis Mehefin 2023 lle cynhyrchwyd cyfanswm o 1498.49 tunnell (o ochr y palmant a phob gwastraff CAGC). Mewn cymhariaeth, ym Mehefin 2022, yr oedd yn 1568.18 tunnell, sy'n dangos fod y gwastraff wedi lleihau.

**Ategol**

Yr oedd y Cynghorydd Carroll yn falch o glywed fod y ffigyrau wedi aros yn weddol sefydlog, o ystyried bod llawer o drigolion wedi sôn eu bod wedi rhoi mwy o wastraff yn eu bagiau duon ers i'r system newydd ddod i rym a gofynnodd a oedd yr Aelod Cabinet yn meddwl y byddai agwedd fwy cydweithredol gyda'r trigolion wedi bod yn fwy addas?

Anghytunodd yr Aelod Cabinet. Bu'r Cyngor yn adeiladol iawn a byddai cymorth ar gael o wneud cais. Yr oedd y trigolion wedi gwneud yn dda. Yr oedd swm y gwastraff mewn bagiau duon wedi gostwng, a byddai'n hapus i anfon y ffigyrau at y Cynghorydd Carroll yn nes ymlaen.

(xiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G.D.D. Carroll**

A wnaiff yr Arweinydd ymuno a mi i longyfarch Vincent Bailey a Sarah Sharpe, dau aelod blaenorol o'r Awdurdod a gafodd OBE ac MBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd Ei Fawrhydi y Brenin?

Ni roddwyd unrhyw ateb gan fod y Cynghorydd Carroll wedi diolch i'r Arweinydd yn gynharach am longyfarch y sawl a dderbyniodd anrhydedd.

(xv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G. Bruce**

Rydym eisoes wedi gweld cynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Gyda'r drefn newydd, bydd tipio anghyfreithlon yn cynyddu. A fydd y gost i'r Cyngor yn fwy na chost yr arbedion a ragwelir gan y Weinyddiaeth Lafur hon o newid o gasglu bob pythefnos i bob tair wythnos.

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Buaswn yn dweud yn gyntaf nad wyf yn cytuno â'ch sylwadau am dipio anghyfreithlon yn awr nac yn y dyfodol.

Yr ydym yn cydnabod y bydd angen rhaglenni addysgu am wastraff, cyngor ychwanegol ar wefan y Cyngor a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac efallai y bydd angen camau gorfodi oherwydd y newidiadau diweddar. Ond ni ragwelir y bydd hyn yn gorbwyso'r arbedion sylweddol a gynhyrchir gan y newidiadau diweddar i'r gwasanaeth.

Ni ddylid anghofio fod tipio anghyfreithlon yn drosedd. Rwy'n ffyddiog na fyddai mwyafrif llethol trigolion y Fro fyth yn ystyried torri'r gyfraith ac y buasent yn hytrach yn gwneud eu gorau i gynyddu faint maent yn ailgylchu, a bydd hyn yn ei dro yn gostwng swm y deunydd fydd angen ei osod mewn bagiau duon.

(xvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd W.A. Hennessy**

A fydd yr Aelod Cabinet cystal ag esbonio pam fod tenantiaid y Cyngor sy'n byw mewn fflatiau yn talu i gael torri eu gwair, ac yna'n gorfod talu eto i gael y gwair wedi ei symud am nad yw contractwyr y Cyngor yn casglu'r gwair?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae'r tâl gwasanaeth wythnosol o £1.47 am dorri gwair yn talu am dorri 9 gwaith y flwyddyn.

Nid yw'r tâl yn cynnwys symud ymaith y gwair a dorrwyd, ac nid oes rhaid symud hwn o dir y Cyngor.

**Ategol**

Yr oedd y Cynghorydd Hennessy yn anghytuno â'r Aelod Cabinet, am ei fod yn ystyried nad oedd yn deg fod tenantiaid oedd yn byw mewn fflatiau Cyngor yn gorfod talu ddwywaith a cheisiodd sicrwydd gan yr Aelod Cabinet y byddai'n edrych i mewn i gynnwys hyn yn y contract nesaf.

Yr oedd yr Aelod Cabinet yn anghytuno, gan ddweud nad oedd tenantiaid yn talu ddwywaith oherwydd bod torri gwair yn dâl gwasanaeth.

(xvii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd W.A. Hennessy**

Mae trigolion eisiau mwy o finiau gwastraff cŵn a biniau sbwriel yn y Rhŵs – a fydd yr Aelod Cabinet roi sicrwydd i mi y darperir mwy o finiau i drin gwastraff a sbwriel?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Dim ond nifer cyfyngedig o finiau sy'n cael eu prynu a'u gosod bob blwyddyn fel rhan o raglen adnewyddu biniau y gwasanaeth glanhau. Nid ydym bellach yn gosod biniau gwastraff cŵn gan fod modd rhoi gwastraff cŵn mewn biniau sbwriel safonol gyda mathau eraill o sbwriel.

Os gallwch roi manylion y lleoliad yn y Rhŵs lle credwch fod angen biniau sbwriel ychwanegol, fe drefnaf i'm swyddogion gynnal asesiad o'r sbwriel yn yr ardaloedd hynny i weld a oes angen biniau ychwanegol.

(xviii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave**

Beth yw'r amseroedd aros presennol am Ganolfan Gyswllt y Cyngor (C1V)?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Yn ystod y flwyddyn bresennol, bu'n rhaid i drigolion aros am 630 eiliad ar gyfartaledd i gael ateb i'w galwad. Mae hyn oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys lefelau uchel o alw cysylltiedig â biliau Treth Cyngor a'r newidiadau diweddar i

wasanaethau casglu gwastraff, a swyddi gwag yn y gwasanaeth oherwydd anhawster recriwtio aelodau newydd o'r staff.

Mae'r amser y mae'n rhaid i'r trigolion aros i gael ateb gan Contact One Vale (C1V) yn cael ei bennu gan y galw a'r adnoddau sydd ar gael. Gall hyn arwain at gryn amrywiaeth mewn perfformiad. Yn ystod yr wythnos yn cychwyn 26 Rhagfyr, 2022, pan oedd y galw yn sylweddol is, 21 eiliad oedd yr amser aros ar gyfartaledd. Mewn cymhariaeth comparison, yn ystod yr wythnos yn cychwyn 19 Mehefin, 2023, pan gododd y galw'n sylweddol ac yr oedd yr adnoddau yn C1V yn isel, cynyddodd yr amseroedd aros i 1,076 eiliad.

Mae'r ganolfan Gyswllt yn defnyddio meddalwedd Work Force Optimisation i ragweld y galw a chyfatebu'r adnoddau sydd ar gael yn erbyn pegynau ac iselfannau i wneud y mwyaf o berfformiad. Fodd bynnag, pan fydd y galw yn cynyddu oherwydd problemau nas rhagwelwyd oherwydd tywydd neu broblemau mewn gwasanaethau eraill, gall amseroedd aros godi'n sydyn. Lle mae modd rhagweld y cynnydd mewn galw, mae tîm C1V wedi cymryd mesurau i liniaru hyn. Er enghraifft, mae bron i 80% o'r sawl a danysgrifiodd i'r gwasanaeth Gwastraff Gardd wedi gwneud hynny ar-lein, gan leihau nifer y galwadau i C1V.  Hefyd, crëwyd gwasanaeth teliffon unswydd newydd a recriwtiwyd staff dros dro i sicrhau y gall trigolion sy'n ymaddasu i'r gwasanaethau casglu newydd dderbyn cefnogaeth yn fuan. Mae'r mesurau hyn wedi golygu y bu'n rhaid i drigolion aros am 80 eiliad ar gyfartaledd i gael ateb i'w galwad.

**<u>Ategol</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Cave i'r Aelod Cabinet esbonio pam y bu angen i aelodau staff yn y ganolfan alwadau ofyn i aelodau'r cyhoedd oedd yn ffonio i lobïo eu Cynghorwyr lleol i geisio cael mwy o staff ar eu tîm.

Dywedodd yr Arweinydd mai tystiolaeth hanesiol oedd hyn, a gobeithiai y byddai'r Cynghorydd Cave wedi adrodd am hyn wrth reolwyr y gwasanaeth. Yr oedd y  staff yn delio ag amrywiaeth eang o faterion cymhleth. Pan dreuliodd hi rai oriau gyda'r tîm, yr oeddent yn delio a phynciau mor amrywiol â chefnogaeth fusnes, archebu priodas a newid enw ar randir. Hefyd, yr oedd yno staff medrus iawn oedd yn delio â galwadau iechyd a gofal cymdeithasol, oedd yn chwilio am gyfleoedd ychwanegol i gysylltu â chefnogaeth les i alwyr a all fod yn fregus neu ein gwasanaethau teleofal lle gallai galwadau fod yn ddifrifol neu hyd yn oed yn sefyllfa o fywyd neu farwolaeth.

Cynghorodd yr Aelodau nad oedd yn ymwybodol o'r holl gefnogaeth sydd ar gael trwy C1V i archebu ymweliad a gallent wedyn siarad yn bersonol â'r staff. Nid oedd yn ymwybodol o sylwadau o'r fath, ac yr oedd cynlluniau ar gael i roi mwy o gefnogaeth i C1V.

(xix) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave</u>**

Pam fod y Cyngor yn ystyried adleoli'r ganolfan ailgylchu bresennol sy'n anodd ei gyrraedd yng Ngorllewin y Fro i bentref bach gwledig heb ddigon o ffyrdd mynediad?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Wedi sawl blwyddyn yn chwilio am safle arall, un dewis hyfyw sydd ar ôl, sef tir nesaf at safle "Lle i gartrefi", Llandŵ. Mae'r maes gwasanaeth yn ymwybodol o'r cyfyngiadau gyda'r ffordd fynediad, ac y mae ein tîm adeiladwaith priffyrdd yn ymdrin â hyn, a hefyd yn cynnal diwydrwydd dyladwy ar y safle. Pan gânt eu cwblhau, bydd y canlyniadau a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i Aelodau i'w hystyried.

**Ategol**

Cytunodd y Cynghorydd Cave ei fod yn ddewis hyfyw, ond awgrymodd fod rhan fwyaf o'r ailgylchu yn dod o ddwy brif dref, ac awgrymodd y byddai'n fwy priodol cael safle digonol y gellir mynd ati, nod ar hyd ffordd fechan bentrefol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed i ddod o hyd i wahanol leoliadau, a phetai'r Cynghorydd Cave yn gallu darparu unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth i helpu hyn, y buasai'n ddiolchgar dros ben.

(xx) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave**

Sut gallwn ni osgoi cymeradwyo cofnodion y Cyngor pan eu bod yn amlwg yn anghywir?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Fel y gŵyr y Cynghorydd Cave, gall unrhyw Aelod o'r Pwyllgor perthnasol godi mater cywirdeb cofnodion mewn cyfarfod, ac wedi i'r Pwyllgor gymeradwyo unrhyw welliant a gynigir o ran cywirdeb, mae cofnodion y cyfarfod blaenorol wedyn yn cael eu cofnodi fel rhai wedi eu cymeradwyo yn amodol ar unrhyw newid perthnasol.

**Ategol**

Dywedodd y Cynghorydd Cave mai un o'r problemau oedd, mewn rhai cyfarfodydd, fod gofyn i Aelodau gymeradwyo cofnodion cyfarfodydd a ddigwyddodd dros dri mis yn ôl. Yr oedd y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol yn debyg, a gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo heb gyfarfodydd. Holodd a fyddai modd cynllunio proses gyflymach, dyddiau wedi i'r cyfarfod gael ei gynnal, a'r cofnodion yn cael eu clirio a'u rhannu gyda phob Aelod ar y Pwyllgor hwnnw. Byddai hyn yn ffordd well o lawer o sicrhau eu bod yn gywir.

Holodd yr Arweinydd a oedd y Cynghorydd Cave am newid Cyfansoddiad y Cyngor o ran cymeradwyo cofnodion. Nododd fod cyfarfodydd yn cael eu recordio a'u bod ar gael ar wefan y Cyngor ac y gallai Aelodau ddwyn pethau i gof trwy wylio recordiadau o gyfarfodydd. Yr oedd yr Arweinydd hefyd yn disgwyl i Aelodau fod wedi darllen yr adroddiadau y byddent yn eu derbyn saith diwrnod cyn cyfarfod, ac os nad oeddent yn hollol fodlon fod y cofnodion hynny yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod, y gallent wedyn fynd yn ôl a gwylio'r recordiad. Nid oedd yn meddwl y dymunai adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn rhywbeth oedd wedi gweithio'n dda ers llawer blwyddyn.

(xxi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.R. Thomas**

A wnaiff yr Aelod Cabinet amlinellu pa oruchwyliaeth sydd gan Gyngor Bro Morgannwg dros gyllid Ysgol Stanwell?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg**

Mae'r cyfrifoldeb dros gyllid yr ysgol o ddydd i ddydd yn gorwedd gyda'r Pennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol. Fel ysgol Sylfaen, y Corff Llywodraethol hefyd yw'r cyflogwr, yn wahanol i weddill ysgolion y wladwriaeth ym Mro Morgannwg lle mae'r Cyngor yn gyflogwr.

Y mae'r Cyngor yn goruchwylio cyllid yr ysgol, ond mae'r berthynas yn llai uniongyrchol na chyda sector y wladwriaeth, gan nad yw Stanwell cyn hyn wedi cymryd cyllid yr awdurdod lleol, gwasanaethau AD na chyflogres, a bu llai o fynediad at ddata lefel ysgol. O ganlyniad i ddatblygiadau diweddar, mae'r ysgol bellach wedi ymwneud a CLG cefnogaeth ariannol y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, a chyda'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau cyflogres.

Serch hynny, y mae gan y Cyngor oruchwyliaeth trwy osod y gyllideb, gyda'r Cyngor yn gyfrifol am gymeradwyo'r gyllideb flynyddol a gyflwynir gan yr ysgol ac y mae'r Awdurdod hefyd yn derbyn canlyniadau monitro yn ystod y flwyddyn. Gall yr ysgol hefyd fynd at yr awdurdod lleol am archwilio mewnol; digwyddodd hyn yn ddiweddar pan oedd yr ysgol yn mynd i ddiffyg, a'i bod yn wynebu heriau llif arian.

Cafwyd rhaglen dreigl o adolygiadau ysgolion yng Nghynllun Archwilio Blynyddol y Cyngor, er bod yr ysgolion yn hanesyddol wedi eu gweld fel risg weddol isel, ac y mae'n wir, mewn rhai cynghorau yng Nghymru, nid oes rhaglen o'r fath.

**Ategol**

Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod cynllun cyllid teg y Fro i ysgolion yn dweud bod yn rhaid i brosiectau fod â rheolwr prosiect gyda chymwysterau addas a gymeradwywyd gan y Cyngor a nifer o fecanweithiau goruchwylio eraill a chadw cyswllt â'r Cyngor trwy gydol oes prosiect arfaethedig. O ystyried hyn, sut y caniatawyd i gyllid Stanwell fynd allan o reolaeth, gyda chost adeiladu'r ganolfan les wedi codi o fwy na £40m.

Atebodd yr Aelod Cabinet eu bod wedi eu hysbysu mewn cyfarfod Pwyllgor nad oedd yr ysgol yn cadw at y gweithdrefnau normal o ran contractau, ac y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Thomas.

(xxii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.R. Thomas**

Pa asesiad a wnaed o ddigonoldeb fformiwla gyllido Llywodraeth Cymru i ysgolion?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg**

Cyflwynwyd adroddiad manwl oedd yn amlinellu'r heriau ariannol sy'n wynebu sector yr ysgolion yn y Fro i'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 15 Mehefin, 2023 ar gais Cadeirydd y Pwyllgor Craffu.

Heriwyd ysgolion Bro Morgannwg mewn dwy ffordd, gydag anghenion Bro Morgannwg heb gael eu hadlewyrchu'n deg yn y fformiwla gyllido sy'n sail i setliad grant y Cyngor, a hefyd lefel yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i'w neilltuo i awdurdodau lleol yn 2023/24.

Ar y mater cyntaf, nid yw'n ymddangos bod y fformiwla yn adlewyrchiad teg o anghenion, ac y mae'r Cyngor wedi bod yn lobïo ac yn parhau i wneud hynny er mwyn cael gwell setliad.

Ar yr ail, yr oedd Llywodraeth y DU wedi peri bod mwy o adnoddau ar gael yng nghyllideb Hydref 2022 a lifodd i Gymru trwy Ddilyniannau Barnet. Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio hyn ymlaen i awdurdodau lleol Cymru, ac yn yr un modd, yr ydym ninnau wedi ychwanegu hyn at ein cyllideb. Fodd bynnag, yn wyneb pwysau chwyddiant sylweddol, bu'n rhaid i ni osod targed effeithlonrwydd ar ysgolion ac y mae hyn wedi golygu bod ffurfio cyllidebau cytbwys a chynaliadwy yn heriol iawn i lawer o'n hysgolion.

**Ategol**

Holodd y Cynghorydd Thomas a oedd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol o'r ddeiseb ar wefan y Senedd a gychwynnwyd gan Martin Price am y fformiwla gyllido annigonol i ysgolion yng Nghymru, a gofynnodd a fyddai'n llofnodi'r ddeiseb.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n cymryd cyngor ar y mater.

(xxiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R.R. Thomas**

A wnaiff yr Arweinydd roi cyfoesiad am y costau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i ddarparwr newydd ar gyfer system cyfarfodydd hybrid?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau**

Cafodd dewisiadau, gwybodaeth am gyflenwyr, gan gynnwys costiadau ar gyfer darparu ateb gwahanol am gyfarfodydd hybrid, a'u cymeradwy yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mehefin, 2023 fel materion Rhan I a Rhan II, a chyfeiriwyd y ddau adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 21 Mehefin, 2023. Nid yw'r sefyllfa wedi newid ers hynny.

**Ategol**

Holodd y Cynghorydd Thomas pa sgyrsiau a gafodd yr Arweinydd gyda'r 21 Cyngor arall yng Nghymru oedd wedi llwyddo i roi systemau hybrid ar waith a holodd pam nad oedd gan y Fro gyfarfodydd hybrid yn eu lle ac ar gael ym mis Medi.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn siarad ag Arweinyddion awdurdodau lleol eraill ar amrywiaeth o bynciau; yr oed dyn ymwybodol pa awdurdodau lleol nad oedd yn ffrydio'n fyw (ac eithrio am gyfarfodydd Cyngor), pa rai nad oedd yn darparu cyfleusterau cyfieithu, pa rai oedd wedi newid cyflenwyr, ac yr oedd yn ymwybodol o'r anawsterau yr oeddent yn wynebu. Fodd bynnag, yr oedd ei sgyrsiau fel arfer am bynciau pwysicach megis cyllido, darparu gwasanaeth, a gofal am ein pobl fwyaf bregus. Yr oedd yn ymwybodol fod cynnydd yn cael ei wneud ar y mater hwn.

(xxiv) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry</u>**

Mae'r ffordd newydd a gostiodd £26m (A4226) rhwng Weycock Cross (Y Barri) a Sycamore Cross (Tresimwn), yn cynnwys trychiad arwyddocaol. Lle rhoddwyd y pridd o'r trychiad?

**<u>Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu</u>**

Yr oedd y prif drychiad ar y cynllun i'r dwyrain o Fferm Sutton Fach. Dywed yr adborth geodechnegol mewn adroddiad gan Jacobs (y dylunydd) fod y deunydd a gloddiwyd o'r ardal hon wedi ei osod yn bennaf yn y mannau isod:

- Yn ardal yr arglawdd i'r gogledd o Whitton Lodge.
- Yn y ffordd ochr i'r Dyffryn.
- Yn ardal yr arglawdd i'r gogledd o droead Moulton.
- Yn ardal yr arglawdd i'r gogledd o Afon Waycock.

Defnyddiwyd gweddill y deunydd i dirweddu mannau ar y safle ac ni nodwyd fod dim o'r deunydd hwn wedi gadael y safle.

Nodwyd hefyd fod y Prif Gontractwr (Contractwyr Alun Griffiths Cyfyngedig) wedi defnyddio man yn Fferm Doghill fel lloc their compound yn ystod y gwaith adeiladu ac i osod a storio deunyddiau a gloddiwyd yn ystod y gwaith. Mae'r Prif Gontractwr ar hyn o bryd yn bwriadu cadw peth deunydd yn yr ardal hon ac y mae wrthi'n trafod ar hyn o bryd ar gytundeb/iawndal gyda'r tirfeddiannwr / tenant ar y mater. Dywedwyd wrth y Contractwr y bydd angen caniatâd cynllunio i gadw'r deunydd hwn, ac mai mater iddo ef i'w ddatrys yw hyn.

**<u>Ategol</u>**

Holodd y Cynghorydd Perry a oedd gan yr Aelod Cabinet unrhyw syniad pryd y byddai'r iawndal i ffermwyr sy'n denantiaid a'r tirfeddiannwr yn cyrraedd, gan fod y ffordd wedi ei chwblhau ac wedi ei hagor yn 2019.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n ymgynghori a'i swyddogion ac yn rhoi ateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Perry.

(xxv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae ofn am ddwyn beiciau yn atal seiclo i gyrchfannau ac atyniadau fel Ynys y Barri. Pa ystyriaeth a roddir gan Gyngor y Fro i gael mannau parcio diogel i feiciau adeg digwyddiadau ac mewn atyniadau?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Mae llawer o stondiau beic o fath Sheffield yn Ynys y Barri, ac y mae TCC yno.

Fel rhan o Gyfnewidfa Trafnidiaeth Dociau'r Barri a godwyd yn ddiweddar, gosodwyd cyfleuster Bi -Keep. Mae'r stondiau modern hyn yn ddull mwy diogel a sicr o gloi beic. Maent yn datgloi ac yn cloi trwy ddefnyddio ap ar ffôn symudol ac yn rhoi tawelwch meddwl i feicwyr pan fyddant yn gadael eu beiciau.

Gall cyfleusterau Bi-Keep ychwanegol, neu bethau tebyg, gael eu gosod mewn mannau eraill yn y Fro, ond bydd hyn yn dibynnu ar yr arian fydd ar gael. Mae man welliannau teithio llesol, megis gosod stondiau beic, ar hyn o bryd yn cael eu cyllido trwy gronfa graidd teithio llesol Llywodraeth Cymru a chyfraniadau Adran 106.

(xxvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Pa syniadau sydd gan y Cabinet i beri symud sylweddol mewn dulliau teithio o geir preifat i gludiant cyhoeddus a theithio llesol er mwyn cyrraedd atyniadau Ynys y Barri?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Mae Heol yr Harbwr a Ffordd Gyswllt Ynys y Barri a godwyd yn ddiweddar yn ymgorffori troedffordd / llwybr beicio Teithio Llesol ac y mae hyn wedi rhoi llawer mwy o gyfleoedd teithio lles i gyrraedd Ynys y Barri. Bydd Cyfnewidfa Drafnidiaeth newydd Dociau'r Barri hefyd yn annog ac yn hwyluso teithio cynaliadwy yn ôl ac ymlaen o'r ardaloedd cyfagos. Bydd yn dal yn bwysig yn y dyfodol i ddyraniadau a phenderfyniadau cynllunio gyfeirio datblygiadau i ardaloedd lle mae gan ddefnyddwyr a thrigolion fynediad at gysylltiadau teithio lleso, a hefyd bydd gwelliannau yn cael eu gwneud i seilwaith sy'n bod eisoes, lle bo hynny'n bosib, ar gynlluniau mwy.

Yn ychwanegol at y cyllid uchod, yr ydym hefyd wedi sicrhau cyllid i gyflwyno Beiciau OVO yn y Barri, a fydd yn rhoi dewis teithio cynaliadwy eraill i drigolion ac ymwelwyr.

**Ategol**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Perry at y ffaith fod rhannu troedffyrdd a llwybrau beicio yn ddadleuol, ac yn atal rhai pobl rhag cerdded, a gofynnodd i'r Aelod Cabinet a oedd unrhyw rai yn gresynu na chodwyd llwybr beicio ar wahân heibio siop ASDA at Ynys y Barri.

Atgoffodd y Dirprwy Arweinydd y Cynghorydd Perry y byddai'r mater wedi bod yn rhan o broses gwneud y cais cynllunio gwreiddiol. Ar nodyn personol, dywedodd ei

bod yn tybio fod y defnydd cymysg yn gweithio'n dda ac nad oedd hi wedi derbyn unrhyw gwynion.

(xxvii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae tagfeydd traffig yn nodwedd reolaidd o'r croesffyrdd yng Nghroes Cwrlwys a Barons Court. Pa syniadau sydd gan y Cabinet i leihau'r oedi sy'n dod i ran pobl sy'n teithio mewn ceir neu'r gyrru cerbydau cludo?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae cyffyrdd Croes Cwrlwys a Barons Court yn gysylltiadau ac yn ganolfannau hanfodol i'r A4232, A4050, A48 (Croes Cwrlwys) a'r A4055, A4160 (Barons Court) sydd oll yn ffyrdd mawr dosbarth A ac yn gyswllt hanfodol rhwng Caerdydd a'r Fro yn ogystal â bod yn ffyrdd mynediad allweddol at rwydwaith y cefnffyrdd a Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. O'r herwydd, mae'r ffyrdd hyn yn cynhyrchu llawer o draffig, yn enwedig ar gyfnodau prysur, ac nid yw'n syndod, gyda mwy o bobl yn berchen ar geir ac yn eu defnyddio, fod llif y traffig ar hyd y cyffyrdd hyn yn aml yn llawn ac yn fwy nag y gellir ei gynnwys. Mae'r naill gyffordd a'r llall wedi eu rheoli gan systemau signal 'deallus'. Rheolir Croes Cwrlwys gan Gyngor Caerdydd trwy eu hystafell reoli traffig, sy'n gallu cyrchu delweddau TCC mewn amser gwirioneddol o'r gyffordd. Rheolir Barons Court gan Fro Morgannwg ac y mae'r signalau traffig yn gweithio mewn dull VA ('Vehicle Activation') i reoli llif y traffig yn effeithiol o bob braich i'r gyffordd. Gwnaed gwelliannau penodol i'r gyffordd yn 2013 i gynorthwyo'r traffig sy'n gadael Penarth ac i leihau tagfeydd ar hyd y ffordd hon at y gyffordd. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn ymchwilio i bosibilrwydd gweithredu system MOVA ('Microprocessor Optimised Vehicle Actuation') i'r signalau traffig, sydd fel arfer yn hwyluso llif y traffig trwy gyffyrdd arunig. Byddai hyn yn helpu gydag unrhyw broblemau galluedd sy'n bodoli, gan y gall MOVA ddelio â holl ystod yr amodau traffig, o lif isel iawn trwodd at gyffordd sydd wedi'i gorlwytho gan draffig, fel y gallwn mewn gwirionedd amrywio, yn dibynnu ar yr amser a'r sefyllfa.

I ddelio a phroblemau galluedd ar hyd rhwydwaith priffyrdd lleol y Cyngor, yr ydym yn hyrwyddo polisïau trafnidiaeth cynaliadwy i annog defnyddio ffurfiau amgen ar drafnidiaeth gan gynnwys teithio llesol a chludiant cyhoeddus. I helpu gyda hyn, mae'r Cyngor wedi cyflwyno llwybr teithio llesol a lonydd bysus ar hyd coridor yr A4050 i hyrwyddo newydd mewn moddau teithio ac annog newid meddylfryd ymaith oddi wrth ddefnyddio cerbydau preifat, yn unol â'i bolisi ei hun a pholisi Llywodraeth Cymru. Darparwyd lôn fysus hefyd ar hyd coridor yr A4050 ac y mae gan y Cyngor rywdwaith uchelgeisiol o lwybrau teithio llesol yr ymgynghorodd arnynt a chytuno gyda Llywodraeth Cymru; cyhoeddwyd hyn ar wefan eu Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Dyfarnwyd grantiau i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru i wneud nifer o welliannau Teithio Llesol, gan gynnwys prosiectau dichonoldeb, dylunio a phrosiectau adeiladu bychain ledled Bro Morgannwg, ac y mae manylion y cynlluniau a gyllidir ar hyn o bryd ar dudalennau gwefan y Cyngor.

**Ategol**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Perry at y twf ym mherchenogaeth ceir ym Mro Morgannwg gan dybio mai cyfrifoldeb y Cyngor oedd peidio ag annog perchenogaeth ceir a'i leihau er mwyn yr amgylchedd a chenedlaethau'r dyfodol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y Cyngor yn gwneud ei orau i annog pobl i ddefnyddio teithio llesol a dulliau teithio cynaliadwy eraill. Yr oedd wedi ymrwymo i'r pwnc hwn a thybiai y byddai mwy o anogaeth yn helpu ac yn cefnogi'r symudiad tuag at gael mwy o bobl i ddefnyddio llwybrau teithio llesol.

(xxviii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae'r Adran Tai yn aros am benderfyniad ar ddau gais cynllunio ôl-weithredol (a wnaed ym Medi 2021) yn dilyn camau gorfodi o 2019. Pryd yr aiff Adran Tai Cyngor y Fro i apêl yn erbyn diffyg penderfyniad gan Awdurdod Cynllunio Bro Morgannwg?

**Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau (Dan y Portffolio Tai'r Sector Preifat ac Ymwneud Tenantiaid)**

Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a deddfwriaeth ddilynol i ganiatáu'r Cyngor i gyflwyno apeliadau i'r Arolygiaeth Gynllunio o ran eu cais cynllunio eu hunain (Ceisiadau Rheoliad 3).

**Ategol**

Dywedodd y Cynghorydd Perry fod ceisiadau ôl-weithredol eraill wedi mynd at y Pwyllgor Cynllunio, a gofynnodd i'r Arweinydd a oedd yn gresynu na ddosbarthwyd ffotograff o'r llwybr a gyflwynwyd gan y Cyngor Cymunedol cyn y cyfarfod neu ynddo, mae'n debyg o ganlyniad i doriad trydan yng nghartref swyddog, ar waethaf ceisiadau.

Awgrymodd yr Arweinydd petai'r Cynghorydd Perry yn tybio fod camgymeriad mewn cais cynllunio, y dylai godi hynny gyda'r adran berthnasol.

(xxix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio, holais a oedd Cyngor y Fro wedi cyflawni ei Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gais am dai fforddiadwy – yn benodol yng nghyswllt ymgorffori arwyneb a rennir. Codwyd peth pryder yn yr Asesiad Effaith Iechyd am y safle wedi dweud y "gellir lliniaru'r effaith trwy sicrhau bod lliwiau cyferbyniol yn cael eu hychwanegu at yr arwyneb i nodi a yw'n ddiogel ai peidio i gerddwyr" er nad oes tystiolaeth o hyn yn y cynlluniau terfynol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor Cynllunio fod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) am y Strategaeth Tai Lleol yn ymdrin â'r manylyn dylunio hwn. Yn dilyn y cyfarfod, gofynnais am weld yr AEA, a chanfod fod y ddau swyddog oedd yn gyfrifol am yr AEC wedi gadael cyflogaeth y Cyngor a bod yr AEC wedi ei golli. A derbyn nad oes yn awr AEC ar gyfer y Strategaeth Tai Lleol, sut y gall Cyngor y Fro honni ei fod wedi cyflawni ei Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau ar ddatblygiadau tai?

**<u>Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymwneud Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio</u>**

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer Strategaeth Tai Lleol y Cyngor, ac fe wnaf yn siŵr fod copi yn cael ei anfon ymlaen.

Mae dyletswyddau'r Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (DC 2010), yn benodol, a.149(1), yn mynnu bod y Cyngor fel corff cyhoeddus yn *cadw mewn cof yr angen i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu dan DC 2010*. Mae a wnelo'r ddyletswydd â <u>phob</u> nodwedd warchodedig, ac â phobl a *all*, o ganlyniad, ddioddef camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir dan DC 2010, ac sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno.

<u>Nid</u> yw asesiad effaith cydraddoldeb (AEC) ffurfiol yn ofyniad angenrheidiol o ran 'cadw mewn cof'. Mae'r ddyletswydd yn bersonol i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad, ac yn gofyn am ganoli'n gywir a chydwybodol ar y meini prawf statudol. Ni ellir ymyrryd a'r penderfyniad yn unig oherwydd *y byddai* wedi rhoi mwy o bwysau i oblygiadau cydraddoldeb y *penderfyniad nag a wnaeth y sawl a wnaeth y penderfyniad*. Yn ei hanfod, rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad fod yn glir ynghylch beth yn union yw'r oblygiadau cydraddoldeb pan gânt eu pwyso a'u mesur, a rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad gydnabod y byddai eu cyrraedd yn ddymunol, ond yn y pen draw, y sawl sy'n gwneud y penderfyniad sy'n penderfynu pa bwysau y dylid rhoi iddynt yng ngoleuni'r holl ffactorau perthnasol.

Mae'r penderfyniad ynghylch Cam 2 cynllun Holm View y cyfeiria'r Cynghorydd Perry ato, a'r cynigion sydd ynddo, yn ychwanegol at ddadansoddiad o'r camau a gymerwyd gan y Cyngor, wrth gyflawni ei ddyletswyddau dan a.149(1), y DCSC, wedi ei gyflawni trwy'r AEC a wnaed yng nghyswllt y Strategaeth Tai Lleol.

**<u>Ategol</u>**

Holodd y Cynghorydd Perry a oedd AEC ar ddogfen strategol yn ymdrin â manylion dylunio megis cyd-wasanaeth.

Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet fod y ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wedi ei gyflawni trwy'r AEC a wnaed yng nghyswllt y Strategaeth Tai Lleol , felly yr ateb yw oedd.

(xxx) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry</u>**

Yn 2020, cynigiodd Cyngor y Fro ysgol gynradd newydd i Sain Nicolas oedd yn dyblu maint yr ysgol ac yn gosod system unffordd, na allai cerbydau mwy a rhai amaethyddol fynd drwyddi, ar ganol hanesyddol y pentref. Yr oedd y trigolion yn rhwystredig na wnaeth eu hymatebion a'u cyfraniadau am wybodaeth leol i'r gwahanol ddogfennau cynllunio arwain at unrhyw ystyriaeth na newidiadau amlwg - a'r canlyniad oedd i'r Cyngor Cymuned wneud cwyn ffurfiol am ddiffyg ymwneud, a gwahodd cynrychiolwyr Cyngor y Fro i gyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Arweiniodd y ffaith fod gwallau amlwg yn y cynnig at i'r Pwyllgor Cynllunio wrthod caniatâd

cynllunio - ac ni wnaeth y cais cynllunio a ddilynodd ddim ond gwneud i ffwrdd â'r gwallau mwyaf amlwg, er siom i drigolion y gymdogaeth. Os dysgwyd unrhyw wersi o'r cais cynllunio methedig hwn, beth oeddent, a phryd y gellir gweithredu arnynt?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg**

Mae'r Cynghorydd Perry yn dal i holi'r hyn sydd mewn gwirionedd yr un cwestiwn am y datblygiad hwn yn ei ward, ac o gofio fod y Cynghorydd Perry yn bresennol yn yr holl Bwyllgorau Cynllunio pan drafodwyd hyn ac y penderfynwyd arno, fe fydd yn llawn ymwybodol o'r cais cynllunio a'r penderfyniadau oedd yn ceisio cydbwyso'r ystyriaethau perthnasol gwrthgyferbyniol fel y'u gosodwyd allan yn y cynigion am yr ysgol newydd ac adroddiad cysylltiedig y Pwyllgor Cynllunio.

Yr oedd a wnelo cais 2020 â chynyddu nifer y llefydd i ddisgyblion o 126 i 210, a chynnwys meithrinfa i'r ysgol a'r pentref oedd ei hangen yn fawr. Pan wrthodwyd y cais, edrychwyd eto ar y cynigion, ac ystyriwyd sylwadau'r Pwyllgor. Fodd bynnag, oherwydd cyflwr a chyfyngiadau'r adeilad presennol, yr oedd angen dybryd o hyd am adeiladau a chyfleusterau newydd er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion presennol a rhai'r dyfodol gyfleuster oed dyn addas at y diben.

Yr oedd a wnelo'r newidiadau rhwng y cais a wrthodwyd yn 2020 a'r cais y cytunwyd iddo yn 2022 yn bennaf a maint yr adeilad. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus hefyd i barcio ar y safle, ac fe'i dyluniwyd i leihau'r effaith ar bentref Sain Nicolas. Bwriad y cynigion oedd gwella'r sefyllfa bresennol lle nad oedd fawr ddim lle i barcio ar y safle, a dim lle i rieni ollwng eu plant. Newidiwyd gwedd allanol yr adeilad hefyd i adlewyrchu'r lleoliad mwy gwledig.

Cynhaliwyd rhaglen ymwneud a chysylltu gynhwysfawr, o safbwynt addysg a chynllunio, oedd yn cynnwys cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned, a chryn dipyn o gyfathrebu ers y cyfnod ymgynghori i ymdrin ag unrhyw gwestiynau fyddai'n cael eu codi gan y trigolion.

Rwy'n fodlon fod y cynllun a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd yn cwrdd â'r holl ofynion ac y bydd yn darparu lle newydd sydd ei fawr angen i'r plant fydd yn mynd i'r ysgol newydd yn Sain Nicolas.

(xxxi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae rhyw 24,000 o gwlïau ym Mro Morgannwg , a dim ond dau dancer gwlïau i wneud gwaith cynnal a chadw sylfaenol (glanhau). Mae trigolion yn pryderu am nifer y gwlïau sydd wedi cau i fyny a heb fod yn gweithio'n iawn, gan y gall hyn effeithio ar ddiogelwch y ffyrdd gan adael eiddo gerllaw yn agored i ddioddef gorlifo. A oes digon o seilwaith i gefnogi ac a yw dim ond dau dancer gwlïau yn ddigon i gynnal gwlïau'r briffordd yn iawn?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Mae'n cael ei gydnabod fod glanhau gwlïau yn gallu bod yn heriol, a gall effeithiolrwydd y gwasanaeth fod yn ddibynol ar y tywydd. Gall tywydd drwg a newidiadau tymhorol effeithiol ar effeithlonrwydd y gwasanaeth.

Mae dau dancer gwlïau priffyrdd sydd wedi eu neilltuo i waith cynnal a chadw, ac y maent yn glanhau'r gwlïau hyn yn ôl y drefn a osodwyd. Mae tîm Cynnal a Chadw'r Priffyrdd yn monitro cynnydd y gwaith, ac os bydd unrhyw oedi, mae dewis i ddod a thrydydd adnodd i mewn i sicrhau bod y gwasanaeth yn mynd rhagddo.

**Ategol**

Dywedodd y Cynghorydd Perry ei fod wedi derbyn cryn dipyn o gwynion am gwlïau, a gofynnodd a ellid sicrhau ei drigolion y byddai gwaith cynnal a chadw ar briffyrdd o ran clirio gwlïau yn cynyddu dros y misoedd i ddod, yn enwedig gyda dyfodiad tywydd garw.

Atebodd yr Aelod Cabinet fod hyn yn dibynnu llawer iawn ar yr adnoddau sydd ar gael.

(xxxii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**
Mae llawer o goed a blannwyd yn ddiweddar wedi marw oherwydd y cyfnodau o wres a'r diffyg glaw a gawsom dros y ddau haf diwethaf – gyda mwy o dywydd eithafol yn cael ei ragweld am y blynyddoedd i ddod. Mae coed newydd angen gofal drud er mwyn goroesi tywydd sych yr haf am dair blynedd o leiaf – felly mae coed wedi marw ledled y Fro, yn enwedig ar ddatblygiadau newydd ac ar diroedd Ysgolion 21ain Ganrif newydd. Mae coed aeddfed gyda'u gwreiddiau dyfnion yn awr yn fwy gwerthfawr nag erioed gan y gallant wrthsefyll yr amodau tywydd hyn. A oes amgylchiadau pryd y dylid gwneud i ffwrdd â choed iach, aeddfed os nad ydynt yn fygythiad i adeiladau, y briffordd neu iechyd a lles pobl?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Nid oes angen caniatâd i symud coed lle nad ydynt mewn ardal gadwraeth a heb gael eu gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed; fodd bynnag, mae angen trwydded cwympo coed gan CNC lle'r atebir rhai meini prawf (mwy na 5 meter ciwbig o bren). Y mae eithriadau hefyd, sy'n cynnwys os yw'r goeden yn beryglus neu ar gyfer ymgymerwyr statudol.

Bydd colli coed nas gwarchodir yn wastad yn cael ei asesu fel rhan o unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygu sydd yn golygu eu cwympo, ac os bydd hyn yn angenrheidiol ac yn dderbyniol, bydd angen plannu coed addas yn eu lle ar sail 2 am 1. Bydd hyn yn cynnwys coed unigol, coetiroedd, neu wrychoedd. O ran prosiectau'r Cyngor, eu nod yw sicrhau na fydd coed aeddfed yn cael eu symud onid oes cyfiawnhad llethol yn ymwneud a chyflwyno gwasanaeth, lle nad oes modd osgoi symud y goeden.

**Ategol**

Holodd y Cynghorydd Perry a fyddai'r Dirprwy Arweinydd yn cefnogi Aelodau Ward i newid penderfyniadau a wnaed i symud coed nad oedd o raid angen eu symud?

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd nad oedd yn siŵr at ba goed yr oedd y Cynghorydd Perry yn cyfeirio ac felly nid oedd modd iddi roi ateb.

(xxxiii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mewn argyfwng, mae angen gweithredu ar frys. Eleni, gwelodd y byd fwy fyth o ddigwyddiadau o dywydd eithafol sy’n gysylltiedig â newid hinsawdd a achosir gan weithgaredd dynol. Nid yw newidiadau arwyddocaol mewn agwedd, arferion a chyflwyno prosiectau yn amlwg, er bod geiriau cadarnhaol am fwriadau mewn gwahanol adroddiadau. Pryd y gwelwn ni brosiectau adeiladu sy’n defnyddio llai o ddeunyddiau ac yn ymgorffori carbon yn hytrach na gohirio dro ar ôl tro?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Mae Llywodraeth Prydain a Chymru ar hyn o bryd yn ystyried sut y gellir ymgorffori asesiadau carbon oes gyfan yn y system gynllunio er mwyn gallu cymryd agwedd unffurf o ran ail-ddefnyddio adeiladau ac ar gyfer cynigion datblygu newydd. Fodd bynnag, nid yw’r naill lywodraeth na’r llall hyd yma wedi cynhyrchu canllawiau polisi clir i’w defnyddio yn y broses gynllunio.

Ar waethaf hyn, fel rhan o adolygu’r Cynllun Lleol, mae’r tîm Polisi Cynllunio ar hyn o bryd yn ymchwilio sut y gellir defnyddio polisiau cynllunio i fynnu fod pob annedd ac adeilad masnachol yn cael eu codi i safonau uwch tuag at garbon sero net (yn fwy na gofynion y Rheoliadau Adeiladu), a’r potensial i fynnu asesiadau carbon oes gyfan neu debyg ar gyfer datblygiadau mawr. Rhaid cael tystiolaeth o waith hyfywedd ar gyfer y math hwn o agwedd polisi er mwyn sicrhau y bydd modd ei gyflwyno, neu efallai na fydd yn mynd trwy broses ymchwiliad y Cynllun Lleol.

Carwn ychwanegu hefyd fod y safonau a’r ansawdd cysylltiedig â datblygu tai fforddiadwy yn newid yn sydyn yng Nghymru. Ers 1 Ebrill 2021, bydd yn rhaid i bob datblygiad tai cymdeithasol newydd yng Nghymru - a gefnogir gan y Grant Tai Cymdeithasol (GTC) - gyrraedd cyfradd effeithlonrwydd ynni o EPC A (SAP92+) a defnyddio agwedd ffabrig yn gyntaf. Hefyd, yn hydref 2021, gweithredwyd Gofynion Ansawdd Dylunio Llywodraeth Cymru (WDQR 2021), gan roi mwy o bwyslais ar gyrraedd cyfradd EPC A trwy ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern (DAM) ac yn arbennig dechnegau Gweithgynhyrchu Oddi ar y Safle (GOS) a defnyddio systemau gwresogi a dŵr poeth seiliedig ar danwydd heb fod yn ffosil. Mewn ymateb i hyn, mae Tîm Datblygu Tai y Cyngor yn sicrhau y gwireddir y safonau dylunio ac effeithlonrwydd ynni llym hyn yn natblygiadau tai presennol y Cyngor a rhai’r dyfodol.

Mae’r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i ddefnyddio dulliau adeiladu oddi ar y safle lle mae hyn yn ymarferol, ac y mae’r rhaglen ddatblygu yn cynnwys tai newydd a ddyluniwyd ac a godwyd sydd â chydrannau strwythurol wedi eu panelu (2D) neu rai modiwlaidd (3D), wedi eu cynhyrchu oddi ar y safle er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol o ran gwres, atal aer rhag gollwng, ac ansawdd adeiladwaith. Mae’r Tîm Datblygu Tai yn sicrhau bod deunyddiau, a choed yn enwedig, a ddefnyddir yn y ffrâm strwythurol, adeiladwaith y to a’r tu mewn, yn dod o ffynonellau cynaliadwy. Yr ydym yn ffitio systemau gwresogi a dŵr poeth trydan sy’n ynni-effeithlon, gan y bydd systemau gwresogi nwy yn dod i ben yn raddol mewn tai a godir o’r newydd o 2025 ymlaen. Byddwn hefyd yn gosod paneli solar ffotofoltaidd (PV) a ffenestri a drysau sy’n fwy ynni-effeithiol, yn ogystal ag Awyru Echdynnu Mecanyddol datganoledig (dMEV) i wella ansawdd aer a thynnu lleithder o’r cartref. I wastraffu cyn lleied o

ddŵr ag sydd modd, yr ydym yn ffitio toiledau llif isel, bath is, a thryledwyr ar y tapiau sy'n cael eu ffitio, yn ogystal â systemau cynaeafu dŵr glaw. Byddwn yn gwneud yn siŵr nad oes llawer o aer yn dianc o ffabrig yr adeiladau. Mae llawer o'r technolegau hyn wedi eu hymgorffori yn y cynlluniau newydd a gaiff eu codi ar hen Glinig Iechyd Colcot, y Barri; Heol Hayeswood, y Barri; Cam 2 Clos Holm View, y Barri; Heol Ddwyreiniol Coldbrook, y Barri a Heol St Cyres, Penarth.

Gydag agwedd o ffabrig yn gyntaf, strategaeth wresogi a dŵr poeth briodol sy'n seiliedig ar danwydd be fod yn rhai ffosil, awyru a chynnwys cynhyrchu ynni ar y safle, ein hamcan yw cyrraedd gostyngiad o 31% o leiaf yn y gyfradd allyriadau CO2, yn ôl gofynion Rhan L y Rheoliadau Adeiladau a gyfoeswyd, sy'n rheoli allyriadau carbon a chadwraeth tanwydd a phŵer.

**Ategol**

Gofynnodd y Cynghorydd Perry, gan gyfeirio at ddigwyddiadau gwres diweddar a thanau a effeithiodd ar Ewrop ac Asia, a ddylai'r Cyngor fod yn lleihau swm y tir o dirweddu caled (mannau parcio ac ardaloedd eang o arwynebedd caled) sy'n cael ei osod?

Atgoffodd y Dirprwy Arweinydd y Cynghorydd Perry mai mater cynllunio oedd hwn, nid rhan o'i phortffolio hi; fodd bynnag, tybiai fod y Cyngor yn gwneud ei orau i newid y system, ond mai mater i'w ystyried dan gynllunio yw hyn.

(xxxiv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig dymchwel Neuadd y Sir a symud i adeilad newydd sbon ar waethaf yr argyfwng amgylcheddol (gan gynnwys defnydd gormodol o ddeunyddiau prin) yr ydym oll yn wynebu, a'r angen i ail-ddefnyddio'r adeiladau sydd gennym eisoes at ddibenion eraill. Nid yw anwybyddu carbon gwreiddiedig mewn adeiladau a pheidio ag ailgylchu deunyddiau adeiladu yn gynaliadwy. Fel rhan o Ddinas-Ranbarth Caerdydd, a wnaiff Cyngor Bro Morgannwg wrthwynebu prosiectau ymffrostgar awdurdodau cyfagos a all fod yn amgylcheddol niweidiol?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Yr ydym yn sylweddoli bod argyfwng hinsawdd, ac y mae'n bwysig i bob cyngor wneud penderfyniadau cyfrifol a chynaliadwy o ran defnyddio adnoddau. Fodd bynnag, nid oes modd gwneud sylwadau manwl am ddatblygiad arfaethedig hyd nes y gwyddom fwy, gan gynnwys y rhesymeg a'r achos dros y datblygiad, ynghyd â lefel o wybodaeth fyddai'n caniatáu ystyried ei effeithiau amgylcheddol.

Ymhellach, nid yw'n rôl nac yn swyddogaeth  y Cyngor hwn i wneud sylwadau am unrhyw gynllun sydd o bwysigrwydd llai na rhanbarthol. Fodd bynnag, os ymgynghorir â'r Cyngor ar gynlluniau sydd o bwys rhanbarthol, yna wrth gwrs, byddai'n gwneud sylwadau am yr effeithiau ar drigolion a chymunedau ym Mro Morgannwg, os bydd rhai.

(xxxv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Bu gwrthwynebiad i gynhyrchu biodanwyddau pan sylweddolwyd fod tyfu tanwydd yn hytrach na bwyd yn lleihau diogelwch bwyd ac yn codi prisiau bwyd. Nawr, rydym yn gweld toreth o gwmnïau sy'n awchu am elw yn ceisio ecsploetio'r llinellau pŵer oedd yn gwasanaethu gorsaf bŵer Aberddawan - heb fawr ddim diddordeb mewn diogelwch bwyd na chadw treftadaeth. Mae gosod paneli yn cywasgu pridd, yn sianelu dŵr glaw ac yn cysgodi'r tir dan y paneli, ac nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y cwmnïau preifat sy'n sefydlu parciau solar fymryn yn fwy ariannol gyfrifol na rhai fel Thames Water. Pa bryderon sydd gan y Cabinet ar y cynigion cenedlaethol arwyddocaol am barc i Fro Morgannwg?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Mae'r effaith ar ansawdd tir amaethyddol yn ystyriaeth allweddol o ran datblygu parciau solar. Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn ceisio gwarchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (BMV). Dylid rhoi cryn bwysau ar warchod tir o'r fath rhag datblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig, a dylid datblygu tir graddfeydd 1, 2 a 3a yn unig os oes angen dybryd am ddatblygu. Lle mae cynigion am solar ar dir BMV, byddai'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad bwyso'r effaith ar gynhyrchu bwyd yn erbyn cyfraniad y datblygiad tuag at gynhyrchu ynni cynaliadwy.

(xxxvi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd S.J. Haines**

Pobl anabl yn aml yw rhai o aelodau mwyaf bregus cymdeithas, a'r lleiaf abl i gyrchu gwasanaethau a ddarperir gan Fro Morgannwg. Hefyd, dywed Deddf Cydraddoldeb 2010:

1 (1) Rhaid i Awdurdod y mae'r adran hon yn gymwys iddo, wrth wneud penderfyniadau o natur strategol am sut i gyflawni ei swyddogaethau, gadw mewn cof ddymunoldeb eu harfer mewn modd a fwriadwyd i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais cymdeithasol-economaidd.

29 (1) Ni ddylai person ("darparwr gwasanaeth") sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth i'r cyhoedd neu garfan o'r cyhoedd (am dâl neu beidio) gamwahaniaethu yn erbyn rhywun sydd angen y gwasanaeth trwy beidio â rhoi'r gwasanaeth i'r person hwnnw.

29 (4) Ni ddylai darparwr gwasanaeth erlid person sydd angen y gwasanaeth trwy beidio â rhoi'r gwasanaeth i'r person hwnnw.

O gofio fod y Cyngor wedi gwneud i ffwrdd â chasglu gwastraff gwyrdd ac na all rhai pobl anabl gyrchu'r gwasanaeth gwaredu a ddarperir mewn canolfannau ailgylchu, pa ddarpariaethau a wnaed i liniaru unrhyw galedi a achosir?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymwneud Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio**

Atebodd yr Arweinydd y cwestiwn hwn ar ran yr Aelod Cabinet dros Ymwneud Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio. Dylid nodi mai

gwasanaeth anstatudol yw casgliadau gwastraff gwyrdd o ochr palmentydd, ac yn yr amseroedd anodd hyn, y penderfyniad a gymerwyd gennym llynedd oedd peidio â chanslo'r gwasanaeth am ei fod yn werthfawr i'r trigolion, ond i barhau ag ef, er am dâl. Er nad oes consesiwn yn y gwasanaeth tanysgrifio gwastraff gwyrdd newydd, mae'r tâl blynyddol a gyflwynwyd yn is na'r cyfartaledd Cymreig am wasanaethau tebyg.  Hefyd, mae'r gwasanaeth newydd yn cynnig mwy nag unrhyw wasanaeth tanysgrifio arall yng Nghymru gyfan.

£20 am hyd at 8 bag
£30 am fwy na 8 bag.

Fel gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu eraill, mae gan y gwasanaeth tanysgrifio yn cynorthwyo gyda chasglu i'r gwasanaeth hwn os na all trigolion osod eu bagiau ar y palmant. Dylai trigolion gysylltu â'r Cyngor trwy'r dulliau arferol petaent am gael eu hystyried am gymorth. Gallant hefyd ddefnyddio dulliau eraill i ddelio â'u gwastraff gwyrdd, gan gynnwys compostio gartref.

**Ategol**

Mae Adran 20 y Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi dyletswydd ar ddarparwyr gwasanaeth i gymryd camau rhesymol i osgoi rhoi pobl anabl dan anfantais sylweddol, a holodd y Cynghorydd Haines sut yr oedd y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Dywedodd yr Arweinydd mai'r dewis hawdd fuasai canslo'r gwasanaeth, ond bu swyddogion yn gweithio'n galed ers amser i gael ateb addas o ran cynorthwyo casgliadau fel yr amlinellwyd yn ei hateb. Byddai'n gofyn i'r swyddogion am fanylion llawn Deddf Cydraddoldeb 2010 a sut yr oedd yn gymwys yn y sefyllfa hon, a bydd yn rhoi'r wybodaeth iddo yn ysgrifenedig.

(xxxvii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd A.M. Collins**

Mae colli'r gwasanaeth 88 wedi taro llawer o drigolion y Bendricks a'r ardaloedd cyfagos yn galed. Yr oedd y trigolion hyn yn dibynnu ar y gwasanaeth i fynd i apwyntiadau ysbyty, cwrdd â chyfeillion, neu ddim ond i wneud gweithgareddau beunyddiol fel siopa am fwyd. Yr oedd y gwasanaeth hefyd ar gael i'r sawl oedd yn ymweld â Thŷ Hafan i weld eu teuluoedd. Pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i liniaru colli'r gwasanaeth hwn?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Gwaetha'r modd, y mae colli'r gwasanaeth 88 yn ganlyniad anochel i'r gostyngiad yn y cyllid i wasanaethau bysus gyda diweddu Cynllun Brys Bysus Llywodraeth Cymru. Yr oedd Llywodraeth Cymru wedi peri bod arian ar gael i gwmnïau ers cychwyn pandemig COVID-19 i gadw'r holl wasanaethau i redeg. Cawsant yr arian ar y sail na fyddent ddim gwaeth na ddim gwell eu byd nag yr oeddent cyn COVID.  Fodd bynnag, mae llai o deithwyr a chostau uwch wedi golygu y byddai'n rhaid canslo rhai gwasanaethau.

Er bod arian wedi dod ar gael fel rhan o Gronfa Trawsnewid Bysus arfaethedig Llywodraeth Cymru, nid yw'r arian sydd ar gael yn ddigon i gynnal y rhwydwaith bysus presennol.

Fodd bynnag, mae swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda chwmnïau bysus am ffyrdd y gall gwasanaethau eraill weithio mewn ardaloedd a oedd ar eu colled yn llwybr gyda thynnu'r gwasanaeth 88 yn ôl. Rhoddir ystyriaeth i newid llwybrau ac amserlenni, ond gyda'r cwmniau yn dal yn ansicr sut y byddant yn rhedeg eu gwasanaethau ar ôl Gorffennaf 24, mae'n anodd dweud ar hyn o bryd beth yw'r dewisiadau.  Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau y bydd ein swyddogion yn edrych i mewn i bob dewis sydd ar gael.

(xxxviii) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson</u>**

Sawl aelwyd oedd wedi ymuno â'r gwasanaeth newydd casglu gwastraff gardd cyn iddo ddod i rym ar 17 Gorffennaf, a pha gyfran o aelwydydd y Fro mae hyn yn gynrychioli?

**<u>Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu</u>**

Fel ar 17 Gorffennaf, 2023, yr oedd 8,157 wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth tanysgrifio gwastraff gwyrdd newydd, sef incwm gwerth £170,580.  Mae hyn yn cynrychioli 13.1% (62,698) o holl aelwydydd Bro Morgannwg, 15.5% (52,392) heb gyfrif fflatiau a rhandai.

Mae hyn yn dal i gynyddu'n ddyddiol, ond nid ydym yn disgwyl i'r tanysgrifio gyrraedd ei anterth tan ddiwedd Awst 2023.

**<u>Ategol</u>**

Yr oedd y Cynghorydd Dr. Johnson yn siomedig gyda'r gymhariaeth rhwng gwasanaeth Bro Morgannwg a gwasanaethau preifat.   Nid oedd y ffigyrau a ddarparwyd yn agos i'r 60% o ddefnyddwyr gwasanaeth a ddefnyddiodd y gwasanaeth llynedd, a gofynnodd i'r Aelod Cabinet pa asesu oedd ar y gweill ar effaith yr holl newidiadau a gyflwynwyd ar fioamrywiaeth.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet fod y lefelau tanysgrifio yn cynyddu'n sydyn; yn yr wythnos ddiwethaf, derbyniwyd dros 1,000 yn fwy o danysgrifiadau, a fyddai'n amlwg yn helpu gyda'r agwedd bioamrywiaeth, ynghyd â chost trosi safle gwyrdd, oedd yn fwy o lawer na £20 neu £30 y flwyddyn.

(xxxix)  **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson</u>**

Faint o adroddiadau a gafwyd am ddigwyddiadau o dipio anghyfreithlon ym Mro Morgannwg yn ystod chwe mis cyntaf 2023, a sut y mae hyn yn cymharu â'r un cyfnod yn 2022?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu**

Hyd yma, adroddwyd am 94 achos o dipio anghyfreithlon rhwng 1 Ionawr, 2023 a 30 Mehefin, 2023. Mewn cymhariaeth, yn yr un cyfnod (2022) bu 145 o ddigwyddiadau.

**Ategol**

Yr oedd y Cynghorydd Dr. Johnson eisiau gwybod beth oedd mewn gwirionedd wedi ei gofnodi fel tipio anghyfreithlon a sut yr oedd yr Aelod Cabinet yn bwriadu asesu unrhyw newidiadau yn nifer y digwyddiadau o dipio anghyfreithlon a ddigwyddodd oherwydd y newidiadau gwastraff oedd yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

Ailadroddodd yr Aelod Cabinet y sylwadau a wnaed yn ei ateb cynharach, sef y byddai adolygiad ymhen tri mis, ac y byddai hyn yn rhan ohono.

(xl) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Faint o ysgolion, a pha gyfran o gyfanswm ysgolion y Fro, sydd wedi gosod cyllideb o ddiffyg ariannol am flwyddyn ariannol 2023/24?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg**

Diolch am eich cwestiwn. Cyflwynodd 22 o ysgolion gyllidebau diffyg i'r awdurdod lleol eu hystyried, sef 41% o'n hysgolion. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r ysgolion i gydbwyso'r rhain lle bo modd, ac i ddatblygu cynlluniau arbed lleol i gefnogi mantolen bositif dros gyfnod o 3-5 mlynedd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwletin ystadegau yn ddiweddar am 2023/24, sydd yn dangos fod cyllideb addysg y Fro wedi gweld y cynnydd canrannol uchaf yng Nghymru, sef 15.7% a'r cynnydd mwyaf mewn gwariant fesul disgybl dros y blynyddoedd blaenorol, sef 15.1%.

**Ategol**

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson nad oedd y ffaith fod 40% o ysgolion wedi gosod cyllideb ddiffyg yn sefyllfa wych, a gofynnodd i'r Aelod Cabinet a oedd ganddi unrhyw syniad o nifer y swyddi fyddai'n cael eu colli yn ysgolion y Fro o ganlyniad i'r sefyllfa bresennol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Dr. Johnson.

(xli) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Pa gynlluniau sydd gan Gyngor y Fro i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion yn ystod gwyliau'r haf, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal y gwasanaeth hwn?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg**

Y mae hwn yn gwestiwn braidd yn od o gofio fod y gwasanaeth wedi ei atal yn bennaf am nad oedd Plaid Cymru yn barod i gefnogi'r cynllun yn y Senedd – efallai bod angen i'r Cynghorydd Dr. Johnson ofyn i'w Arweinydd yn y Senedd beth yw ei gynlluniau?

Bydd nifer o ysgolion yn rhedeg Cynllun Cyfoethogi Gwyliau ysgol Bwyd a Hwyl dros yr haf, sy'n darparu addysg am fwyd a maeth, gweithgareddau corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach i blant yn ystod y gwyliau ysgol. Ond gwn y byddwch yn falch o glywed ein bod yn edrych ar hyn o bryd i weld beth y gallwn lwyddo i'w wneud o fewn yr adnoddau sydd yn ein cyllideb ar hyn o bryd.

**Ategol**

Holodd y Cynghorydd Dr. Johnson pa ystyriaeth a roddwyd i roi arian yn lle'r cyllid hwnnw a darparu prydau ysgol am ddim i blant cymwys dros y gwyliau, beth oedd y costau, ac os na, pam nad oedd hyn yn digwydd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod hyn yn cael ei asesu i weld a oedd modd ei wneud o fewn y cyllidebau oedd ar gael.

(xlii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G. Bruce**

Nid yw anghenion trigolion yn y Rhŵs yn cael eu hateb, yn enwedig y rhai ag anableddau. Mae pump o drigolion ag anableddau yna ŵr yn methu parcio eu cerbydau y tu allan i'w cartrefi oherwydd y lôn feiciau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Sut y bydd y Weinyddiaeth hon yn ymdrin â'r sefyllfa?

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy**

Yr oedd y gwelliannau teithio llesol, y talwyd amdanynt trwy gyfraniadau Adran 106, yn destun dwy rownd o ymgynghori, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynllun.

Nod y gwelliannau oedd ei gwneud yn haws i bawb, gan gynnwys defnyddwyr anabl, deithio o gwmpas y Rhŵs naill ai trwy gerdded, beicio neu ar olwynion.

Fe ddaeth trigolion ar Heol Porthceri i gysylltiad â swyddogion pan oedd gwaith ar y cynllun wedi hen fynd rhagddo, a dywedwyd wrthynt nad oedd mannau parcio nac yn wir fannau parcio wedi eu neilltuo i'r anabl, yno o'r blaen, a bod lle i barcio ychydig bellter cerdded o'u tai.

Buaswn yn cynghori trigolion unigol i gysylltu â thîm priffyrdd y Cyngor os ydynt am drafod mannau parcio ceir i'r anabl. Gallant wneud hyn trwy fynd at wefan y Cyngor neu gysylltu â C1V.

Mae ymgynghoriadau ar gynlluniau teithio llesol yn wastad ar gael ar wefan y Cyngor, a buaswn yn annog trigolion i gysylltu â'r tîm os oes ganddynt unrhyw broblemau neu wrthwynebiadau i gynllun mor fuan ag sydd modd er mwyn i'r rhain gael eu hymgorffori fel rhan o unrhyw waith dichonoldeb a dylunio.

**Ategol**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bruce at Ddeddf Anabledd Cymru sy'n dweud, os oes angen i rywun barcio yn agos at ei g/chartref, y dylai'r Cyngor lleol helpu, a holodd pam na roddwyd i'r tenantiaid Cyngor anabl hyn y cwrteisi o gael eu holi am eu hanghenion parcio cyn cytuno ar y lôn feicio.

Ailadroddodd y Dirprwy Arweinydd y bu dwy rownd o ymgynghori, ac yr ymgynghorwyd â'r Aelodau lleol, felly cafwyd digon o gyfle. Petai gan unrhyw breswylydd gais am fan parcio, anogodd hwy i gysylltu â C1V neu eu Cynghorydd lleol fel bod modd edrych i mewn i hyn dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

(xliii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles**

A yw iawndal milwrol ar hyn o bryd wedi ei gynnwys mewn unrhyw brofion modd am grantiau, tai, neu Dreth Cyngor?

**Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd**

Gan ein bod wedi bod yn rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog ers 2011 yr ydym wedi ymrwymo i gefnogi cymuned ein Lluoedd Arfog a sicrhau nad yw cyn-filwyr a'u teuluoedd yn dioddef anfantais oherwydd eu gwasanaeth. Yr oeddwn yn falch iawn pan ddyfarnwyd i'r Cyngor Wobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn llynedd, fel cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth honno.

Nid yw Taliadau Annibyniaeth y Lluoedd Arfog, Pensiynau Anabledd Rhyfel na Phensiynau Gweddwon Rhyfel yn cael eu hystyried fel incwm ar gyfer unrhyw fudd-dal sy'n destun prawf modd. Fodd bynnag, byddai unrhyw un o Bensiynau Galwedigaethol y Lluoedd Arfog gan gynnwys cyfandaliadau, yn cael eu hystyried fel incwm mewn prawf modd. Yn ychwanegol at hyn, nid yw incwm o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, taliadau Incwm Gwarantedig, Lwfans Gweini Cyson, Lwfans Cysur na'r Atodiad Symudedd Pensiynau Rhyfel yn cael eu hystyried mewn prawf modd am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

**Ategol**

Holodd y Cynghorydd Charles a oedd yr Aelod Cabinet yn tybio ei fod yn deg fod iawndal a dderbynnir gan sifiliaid am eu hanafiadau wedi ei eithrio o brawf modd tra bod iawndal a dderbynnir gan gyn-aelodau o'r lluoedd arfog am eu hanafiadau heb ei eithrio mewn rhai achosion?

Nid oedd yr Aelod Cabinet yn meddwl y dylai unrhyw anfantais fodoli, a gofynnodd i'r Cynghorydd Charles roi manylion iddo fel y gallai edrych i mewn i hyn fel rhan o'r Cyfamod.

(xliv) **<u>Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles</u>**

Faint o staff Asiantaeth sy’n cael eu cyflogi gan y Cyngor a lle maent wedi eu seilio?

**<u>Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a’r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau</u>**

A siarad yn fras, mae’r rhan fwyaf o’n staff asiantaeth yn cael eu cyflogi yn y Gyfarwyddiaeth Tai ac Amgylchedd. Yr ydym yn cydweithio gyda’r undebau llafur i barhau i adolygu’r trefniant hwn, gan fod gwneud defnydd o hyn yn ein helpu i reoli cyfnodau prysur a thawel ein baich gwaith yn effeithiol ac effeithlon.

Mae staff asiantaeth yn cael eu cyflogi trwy drefniant contractaidd y Cyngor gyda chwmni o’r enw Matrix fel dull effeithiol ac effeithlon o gael staff yn fuan ac ar yr un pryd sicrhau y cedwir at bob proses recriwtio. Bu’r trefniant hwn ar waith ers pedair blynedd.

Dyma niferoedd y gweithwyr asiantaeth a gyflogwyd ar Orffennaf 2023:

| | |
|---|---:|
| Amgylchedd a Thai | 105 |
| Dysgu a Sgiliau | 6 |
| Adnoddau | 12 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 35 |
| **CYFANSWM** | **158** |

**<u>Ategol</u>**

O ystyried fod gan Gymru y ffigyrau diweithdra gwaethaf ym Mhrydain, gofynnodd y Cynghorydd Charles i’r Arweinydd oni fyddai’n well ceisio sicrhau bod y Cyngor yn cyflogi’n lleol neu o leiaf yng Nghymru.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr amgylchedd recriwtio / cyflogaeth gyfredol, a bod modd recriwtio staff gyda sgiliau a gweithio’n hyblyg, gyda manteision technoleg fodern. Buasai wedi disgwyl i’r Cynghorydd Charles godi’r mater gyda swyddogion Adnoddau Dynol neu’n uniongyrchol gyda hi. Ni allai wneud sylw pellach heb fanylion, a gofynnodd i’r Cynghorydd Charles ysgrifennu ati fel y gallai ymchwilio ymhellach.